Agenda – Y Pwyllgor Deisebau

Lleoliad:
Ystafell Bwyllgora 1 – Y Senedd
Dyddiad: Dydd Mawrth, 15 Hydref 2019
Amser: 09.15

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Graeme Francis – Clerc y Pwyllgor
Ross Davies – Dipwrwy Glerc
0300 200 6565
SeneddDeisebau@cynulliad.cymru

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant

(Tudalennau 1 – 33)

2 Deisebau newydd

2.1 P-05-895 Etifeddiaeth Rosa Dylid cyflwyno cynllun i helpu pobl i gael hawl i ofal milfeddygol ar gyfer eu hanifeiliaid anwes

(Tudalennau 34 – 44)

2.2 P-05-900 Ymchwilio i'r ffordd y mae rhieni'n cael eu trin gan y gwasanaethau cyhoeddus

(Tudalennau 45 – 54)

3 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

Economi a Thrafnidiaeth

3.1 P-05-738 Deiseb Gyhoeddus ar gyfer Ffordd Osgoi i Ddinas Powys

(Tudalennau 55 – 61)

3.2 P-05-851 Dileu'r cyfyngiadau amser ar y gilfan i'r dwyrain o Grucywel

(Tudalennau 62 – 64)

3.3 P-05-885 Trafnidiaeth Gyhoeddus Hygyrch a Chynhwysol ar gyfer Dinasyddion ag Anableddau Dysgu yng Nghymru

(Tudalennau 65 – 69)

Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

3.4 P-05-743 Rhowch Derfyn ar Fasnachu Anifeiliaid Anwes Egsotig yng Nghymru

(Tudalennau 70 - 72)

Addysg

3.5 P-05-862 Mynd i'r afael â bwlio mewn ysgolion

(Tudalennau 73 - 86)

Bydd y ddwy eitem a ganlyn yn cael eu trafod ar y cyd

3.6 P-05-757 Cael gwared ar y rhwymedigaeth ar ysgolion i gynnal gweithredoedd addoli crefyddol

(Tudalennau 87 - 89)

3.7 P-05-765 Cadw canllawiau presennol ar gyfer Gwasanaethau Crefyddol

(Tudalen 90)

Gwasanaethau cyhoeddus

3.8 P-05-865 Dylid gwarantu bod dewisiadau sy'n seiliedig yn llwyr ar blanhigion ar bob bwydlen y sector cyhoeddus, i ddiogelu hawliau figaniaid ac er budd ein hiechyd, yr amgylchedd ac anifeiliaid

(Tudalennau 91 - 145)

Yr Iaith Gymraeg

3.9 P-05-873 Gwersi Cymraeg am ddim i bobl Cymru

(Tudalennau 146 - 148)

Cydraddoldeb

3.10 P-05-863 Galwn ar Lywodraeth Cymru i ddarparu cynhyrchion hylendid am ddim i bob menyw mewn cartrefi incwm isel

(Tudalen 149)

Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 2.1

P-05-895 Etifeddiaeth Rosa: Dylid cyflwyno cynllun i helpu pobl i gael hawl i ofal milfeddygol ar gyfer eu hanifeiliaid anwes

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Linda Joyce Jones, ar ôl casglu cyfanswm o 95 lofnodion.

Geiriad y ddeiseb:
Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ofyn i Lywodraeth Cymru gyflwyno cynllun i helpu perchnogion cyfrifol anifeiliaid anwes i gael hawl i ymgynghoriadau milfeddygol wyneb yn wyneb a gofal ar gyfer eu hanifeiliaid.

O eleni ymlaen bydd gan Lywodraeth Cymru bwerau trethu cyfyngedig eu hunain am y tro cyntaf. Ers blynyddoedd lawer mae pobl gyffredin wedi cael trafferthion i dalu costau byw sylfaenol, ac mae hyn yn parhau. Nid oes dim amheuaeth ynglŷn â'r manteision i iechyd meddwl a llesiant pobl o gael anifail anwes. Mae llawer o'r anifeiliaid yn dod yn rhan o'r teulu. I bobl sy'n byw ar eu pennau'u hunain neu'n anghysbell, gall yr anifail fod yr unig gwmni sydd ganddynt.

Mae gwyddoniaeth filfeddygol, fel y rhan fwyaf o broffesiynau, wedi esblygu'n gyflym dros y blynyddoedd diwethaf. Mae Llawfeddygon Milfeddygol, nyrsys milfeddygol a'u staff cymorth sy'n gweithio ar y "rheng flaen" yng Nghymru yn gwneud hynny o dan amgylchiadau heriol iawn yn aml. Mae'n dda gweld bod eu corff llywodraethol, sef Coleg Brenhinol y Milfeddygon (RCVS) wedi cydnabod hyn yn y blynyddoedd diwethaf ac wedi cymryd camau i geisio cefnogi llesiant iechyd meddwl o fewn y proffesiwn. Ond yn wahanol i iechyd dynol yng Nghymru, nid oes gwasanaeth am ddim ar gael gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol ar gyfer anifeiliaid pan fyddant ei angen, bedair awr ar hugain y dydd, saith diwrnod yr wythnos.

O dan adran 3.16 o Ddeddf Lles Anifeiliaid (Cymru a Lloegr) 2006, cyfrifoldeb y perchnogion yw darparu ar gyfer pum angen llesiant sylfaenol anifeiliaid, a'r pumed o'r rhain yw ei "amddiffyn rhag dioddef poen, anaf a chlefyd".

Gwybodaeth ychwanegol:

Mae'r maes yswiriant ar gyfer anifeiliaid anwes wedi ffynnu yn y blynyddoedd diwethaf. Ond gall llawer o berchnogion cyfrifol barhau i gael trafferth i gael gwarchodaeth yswiriant ar gyfer eu hanifeiliaid anwes. Mae hyn yn sgîl cyflyrau sydd eisoes yn bodoli, cŵn sydd wedi'u heithrio oherwydd deddfwriaeth benodol ar fridio, neu lawer o anifeiliaid anwes sydd, yn syml, angen rhagor o driniaeth na'r hyn y mae polisi yswiriant eu perchnogion yn ei ganiatáu.

Mae rhai sefydliadau'r trydydd sector, fel yr elusen filfeddygol PDSA, wedi ceisio llenwi'r bwlch ers sawl blwyddyn. Maent wedi gwneud gwaith clodwiw, ond yn y blynyddoedd diwethaf maen nhw, hyd yn oed, wedi gorfod gwneud y penderfyniad torcalonnus i gwtogi ar eu darpariaeth. Nid oes gan rai ardaloedd yng Nghymru ddim ysbytai anifeiliaid na chlinigau milfeddygol o fath yn y byd a ddarperir gan elusennau.

Mae tuedd bryderus hefyd i berchnogion droi at fforymau ar y cyfryngau cymdeithasol i gael cyngor ar faterion clinigol, yn hytrach na mynd â'u hanifeiliaid i bractis milfeddygol. Rwy'n adnabod pobl sy'n ateb llinellau ffôn cymorth ar ran elusennau anifeiliaid. Dywedant wrthyf fod y duedd hon yn cael ei ailadrodd.

Gyda'm cefndir i ym maes achub anifeiliaid, rwyf wedi bod yn argyhoeddedig ers blynyddoedd lawer fod nifer cynyddol o anifeiliaid anwes yn cael eu gadael neu eu rhoi mewn canolfannau achub, yn rhannol, oherwydd nad yw pobl yn gallu ariannu gofal milfeddygol ar eu cyfer. Mae'r canolfannau achub yng Nghymru yn orlawn, ac mae'r holl ystadegau sydd ar gael yn dangos bod achosion o'r fath, ac unrhyw erlyniadau sy'n deillio ohonynt, yn codi.

Yn gyntaf, byddai cynllun o'r fath yn helpu anifeiliaid anwes a'u perchnogion. Byddai hefyd yn helpu'r rheini sy'n gweithio ar y rheng flaen yn y canolfannau achub anifeiliaid, ac yn sicr yn helpu'r proffesiwn milfeddygol yng Nghymru, sydd hefyd ar adegau yn gweithio mewn amgylchiadau heriol tu hwnt.

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Arfon
- Gogledd Cymru

Y Gwasanaeth Ymchwil | Research Service

Deiseb P-05-895: Etifeddiaeth Rosa – Mynediad at ofal milfeddygol ar gyfer anifeiliaid anwes

Y Pwyllgor Deisebau | 15 Hydref 2019
Petitions Committee | 15 October 2019

Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil:

Rhif y ddeiseb: P-05-895

Teitl y ddeiseb: Etifeddiaeth Rosa: Dylid cyflwyno cynllun i helpu pobl i gael hawl i ofal milfeddygol ar gyfer eu hanifeiliaid anwes

Testun y ddeiseb: Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ofyn i Lywodraeth Cymru gyflwyno cynllun i helpu perchnogion cyfrifol anifeiliaid anwes i gael hawl i ymgynghoriadau milfeddygol wyneb yn wyneb a gofal ar gyfer eu hanifeiliaid.

O eleni ymlaen bydd gan Lywodraeth Cymru bwerau trethu cyfyngedig eu hunain am y tro cyntaf. Ers blynyddoedd lawer mae pobl gyffredin wedi cael trafferthion i dalu costau byw sylfaenol, ac mae hyn yn parhau. Nid oes dim amheuaeth ynglŷn â'r manteision i iechyd meddwl a llesiant pobl o gael anifail anwes. Mae llawer o'r anifeiliaid yn dod yn rhan o'r teulu. I bobl sy'n byw ar eu pennau'u hunain neu'n anghysbell, gall yr anifail fod yr unig gwmni sydd ganddynt.

Mae gwyddoniaeth filfeddygol, fel y rhan fwyaf o broffesiynau, wedi esblygu'n gyflym dros y blynyddoedd diwethaf. Mae Llawfeddygon Milfeddygol, nyrsys milfeddygol a'u staff cymorth sy'n gweithio ar y "rheng flaen" yng Nghymru yn gwneud hynny o dan amgylchiadau heriol iawn yn aml. Mae'n dda gweld bod eu corff llywodraethol, sef Coleg Brenhinol y Milfeddygon (RCVS) wedi cydnabod hyn yn y blynyddoedd diwethaf ac wedi cymryd camau i geisio cefnogi llesiant iechyd meddwl o fewn y proffesiwn. Ond yn wahanol i iechyd dynol yng Nghymru, nid oes gwasanaeth am ddim ar gael gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol ar gyfer anifeiliaid pan fyddant ei angen, bedair awr ar hugain y dydd, saith diwrnod yr wythnos.

O dan adran 3.16 o Ddeddf Lles Anifeiliaid (Cymru a Lloegr) 2006, cyfrifoldeb y perchnogion yw darparu ar gyfer pum angen llesiant sylfaenol anifeiliaid, a'r pumed o'r rhain yw ei "amddiffyn rhag dioddef poen, anaf a chlefyd".

Byddwn yn dadlau bod gennym gyfrifoldeb moesol a moesegol yn ogystal â gofyniad a nodir yn y gyfraith. Mynegwyd hyn yn wych gan ein cyn-brif Weinidog Carwyn Jones AC yn y Senedd ym mis Gorffennaf y llynedd pan ddywedodd: "mae'r ffordd yr ydym yn trin anifeiliaid yn adlewyrchiad pwysig o'n gwerthoedd fel cymdeithas".

Mae'r diwydiant yswiriant ar gyfer anifeiliaid anwes wedi ffynnu yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Ond gall llawer o berchnogion cyfrifol ddal i gael trafferth cael yswiriant i'w hanifeiliaid anwes. Cyflyrau sydd eisoes yn bodoli, cŵn sydd wedi'u heithrio gan ddeddfwriaeth sy'n benodol i frîd, neu lawer o anifeiliaid anwes sydd yn syml wedi rhagori ar faint o driniaeth y mae polisi yswiriant eu perchnogion yn ei gwmpasu.

Mae rhai sefydliadau trydydd sector fel y PDSA wedi ceisio llenwi'r bwlch ers blynyddoedd lawer. Maent wedi gwneud gwaith rhagorol, ond yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae wedi gorfod gwneud y penderfyniad torcalonnus i dorri'n ôl ar y ddarpariaeth y mae'n ei darparu. Nid oes gan rai ardaloedd yng Nghymru ysbytai anifeiliaid na chlinigau milfeddygol dan arweiniad elusen.

Mae tuedd bryderus hefyd o berchnogion yn troi at fforwm cyfryngau cymdeithasol er mwyn cael cyngor ar faterion clinigol yn hytrach na mynd â'u hanifeiliaid i bractis milfeddygol. Rwy'n adnabod pobl sy'n gweithio ar llinell gymorth ar gyfer elusennau anifeiliaid. Maent yn dweud bod y duedd hon yn cael ei hailadrodd gyda hwy.

Gyda fy nghefndir mewn achub anifeiliaid, rwyf wedi fy argyhoeddi ers blynyddoedd lawer bod y niferoedd cynyddol o anifeiliaid anwes sy'n cael eu gadael neu eu trosglwyddo i'r gwasanaeth achub o ganlyniad yn rhannol i anallu pobl i ariannu gofal milfeddygol ar gyfer eu hanifeiliaid. Mae gwasanaethau achub yng Nghymru bron yn llawn ac mae'r holl ystadegau sydd ar gael yn dangos bod achosion o'r fath ac unrhyw erlyniadau sy'n deillio o hyn yn cynyddu.

Yn gyntaf, byddai cynllun o'r fath yn helpu anifeiliaid anwes a'u perchnogion. Byddai hefyd yn helpu'r rhai sy'n gweithio ar y rheng flaen ym maes achub, ac yn anad dim y proffesiwn milfeddygol yng Nghymru, sydd hefyd ar adegau yn gweithio dan yr amgylchiadau mwyaf heriol.

Deisebydd: Linda Joyce Jones

Y cefndir

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw gynlluniau llywodraeth sy'n helpu pobl i gael mynediad at ofal milfeddygol ar gyfer eu hanifeiliaid anwes yng Nghymru neu mewn man arall yn y DU.

Mae sawl elusen genedlaethol sy'n darparu cefnogaeth a chymorth milfeddygol i berchnogion anifeiliaid anwes sydd ag anawsterau ariannol. Fodd bynnag, nid yw hyn yn cynnwys Cymru

gyfan. Mae'r mwyafrif o elusennau wedi gosod meini prawf cymhwysedd cadarn. Mae'r rhain fel arfer yn darparu cymorth ariannol yn achos argyfwng milfeddygol. Ychydig o elusennau sy'n darparu cymorth ariannol ar gyfer costau a ragwelir a chostau ataliol, megis brechiadau, ond bydd rhai yn cynorthwyo pobl ar incwm isel er mwyn helpu i dalu am ysbaddu. Ymhlith yr elusennau mae: PDSA Vet Care, The Blue Cross Animal Hospitals, yr RSPCA, Dogs Trust a Cats Protection.

Mae Hope Project Dogs Trust yn canolbwyntio ar ddarparu gofal milfeddygol ar gyfer cŵn pobl ddigartref a dod o hyd i lochesi i'r digartref a fydd yn darparu ar eu cyfer gyda'u cŵn. Mae Freedom Project Dogs Trust yn darparu gwasanaeth maethu ar gyfer cŵn y rhai sy'n ffoi rhag cam-drin domestig ac yn sicrhau bod biliau milfeddygol cŵn sydd dan eu gofal yn cael eu talu.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae banciau bwyd anifeiliaid anwes wedi cael eu sefydlu ledled y DU i helpu pobl i fwydo eu hanifeiliaid anwes.

Fel y soniwyd yn y ddeiseb, mae nifer o ddarparwyr yswiriant milfeddygol.

Y camau gweithredu gan Lywodraeth Cymru

Ar 19 Mehefin 2018, gwnaeth Lesley Griffiths AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig ar y pryd, ddatganiad yn y Cyfarfod Llawn ar les anifeiliaid anwes. Dywedodd [ychwanegwyd pwyslais]:

> Mae lles anifeiliaid yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru a grwp fframwaith iechyd a lles anifeiliaid Cymru. O dan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006, mae dyletswydd gofal ar bob perchennog a phob un sy'n cadw anifeiliaid i sicrhau bod eu hanghenion lles yn cael eu diwallu, p'un ai ar sail barhaol neu dros dro.
>
> [...]
>
> Rhaid i ddarpar berchenogion anifeiliaid anwes, a rhai cyfredol, ystyried y dyfodol wrth benderfynu dod yn berchen ar anifail ai peidio, gan gynnwys sut i fodloni ei anghenion lles a'r costau sydd ynghlwm wrth wneud hynny. Fodd bynnag, rwy'n deall y gall amgylchiadau pobl newid. Hoffwn archwilio pa ddarpariaeth, cymorth a chyngor milfeddygol sydd ar gael i bobl sydd angen cymorth i ofalu am eu hanifeiliaid anwes. Gallai hyn fod yn ystod cyfnodau o salwch neu argyfwng, megis ffoi o aelwyd dreisgar. Hoffwn weld dull cydweithredol, gyda gwybodaeth ar gael yn rhwydd ar gyfer pobl pan fo'i angen arnynt. **Bydd swyddogion yn trafod sut y gellir ymdrin â hyn gyda Rhwydwaith Lles Anifeiliaid Cymru.**

Aeth Lesley Griffiths ymlaen i ddweud bod gweithio gydag elusennau ar y mater hwn yn bwysig.

Ysgrifennodd Lesley at y Pwyllgor ynghylch y ddeiseb hon ar 3 Medi. Dywedodd:

> Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi bod yn trafod gyda Rhwydwaith Lles Anifeiliaid Cymru sy'n casglu gwybodaeth am y cymorth sy'n cael ei roi gan Awdurdodau Lleol yng Nghymru, ac maent yn aros am ymateb. Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn edrych ar ganfyddiadau ac argymhellion yr adroddiad cyn gynted ag y bydd ar gael.

Y camau gweithredu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru

Mewn ymateb i ddatganiad llawn Lesley Griffiths yn 2018, cododd Mick Antoniw AC y mater o ran rheoleiddio ffioedd milfeddygol:

> Ymddengys nad ydynt yn cael eu rheoleiddio i raddau helaeth, ymddengys eu bod yn cynyddu tua 12 y cant y flwyddyn, ac yna, ar ben hynny, mae tâl TAW o 20 y cant.

Gofynnodd i'r Gweinidog ystyried lleihau, neu ddileu TAW ar filiau milfeddygol. Ymrwymodd Lesley Griffiths i godi'r mater hwn gyda Chymdeithas Filfeddygol Prydain.

Cododd Vikki Howells AC y mater o ran banciau bwyd ar gyfer anifeiliaid anwes. Soniodd fod Ymddiriedolaeth Trussell bellach yn derbyn bwyd anifeiliaid anwes a bod y banc bwyd cyntaf ar gyfer anifeiliaid anwes wedi'i sefydlu yng Nghymru. Gofynnodd i'r Gweinidog ystyried yr agwedd hon ar y ddarpariaeth yn ei gwaith i gefnogi perchnogion anifeiliaid anwes.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn o reidrwydd yn cael eu diweddaru na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

Lesley Griffiths AC/AM
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref: Deiseb P-05-895
Ein cyf/Our ref LG/06521/19

Janet Finch-Saunders AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

Government.Committee.Business@gov.wales

11 Medi 2019

Annwyl Janet

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 16 Gorffennaf ynghylch Deiseb P-05-895: Etifeddiaeth Rosa: Cyflwyno cynllun i helpu pobl ddod o hyd i ofal milfeddygol ar gyfer eu hanifeiliaid anwes.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau safonau lles uchel ar gyfer yr holl anifeiliaid sy'n cael eu cadw yng Nghymru, yn ystod pob cyfnod o'u bywydau. Dylai anifeiliaid gael eu gwarchod rhag poen, anaf, ofn a gofid.

Mae'n bwysig bod darpar berchnogion anifeiliaid anwes a pherchnogion presennol yn ystyried y dyfodol wrth benderfynu a ydynt am fod yn berchen anifail ai peidio, gan gynnwys sut i fodloni eu hanghenion lles a'r costau'n gysylltiedig â gwneud hynny.Fodd bynnag, mae amgylchiadau pobl yn gallu newid.

Yn fy Natganiad Llafar ym mis Mehefin 2018, ymrwymais i edrych ar pa ddarpariaeth filfeddygol, cymorth a chyngor sydd ar gael i bobl sydd angen help wrth ofalu am eu hanifeiliaid anwes. Gallai hyn fod yn ystod cyfnodau o salwch neu argyfwng, megis ffoi o gartref treisgar.

Mae Swyddogion Llywodraeth Cymru wedi bod yn trafod gyda Rhwydwaith Lles Anifeiliaid Cymru sy'n casglu gwybodaeth am y cymorth sy'n cael ei roi gan Awdurdodau Lleol yng Nghymru, ac maent yn aros am ymateb. Bydd Swyddogion Llywodraeth Cymru yn edrych ar ganfyddiadau ac argymhellion yr adroddiad cyn gynted ag y bydd ar gael.

Yn gywir
Lesley

Lesley Griffiths AC/AM
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

P-05-895 Rosa's Legacy: Introduce a scheme to help people access veterinary care for their companion animals, Correspondence – Petitioner to Committee, 07.10.19

To the Chair and Members of the Petitions Committee of the Welsh Assembly.

Thank you for giving me the opportunity to provide you with this submission in support of the petition that is known as Rosa's legacy. It didn't contain many signatures, that could be a reflection of my involvement in the animal circus issue. But maybe also because even sharing this petition and explaining the background to it would have caused me immense pain.

Background of My Rosa.

I adopted My late Lady Rosa from an animal centre in May 2011. Rosa had been abandoned by her previous owners, who moved house and left her locked inside at the end of 2010 during one of the coldest winters on record in North Wales. She had no access to water or food , she couldn't be fed through the letter box by her rescuers because there was a inner door at the front that prevented this. Alerted by a neighbour who saw her sitting on an inner window sill looking out . North Wales Police gained a warrant of entry and broke in to get Rosa out . She was in the animal centre I adopted her from for six months.

I had aways had cats as part of my family, but I was shocked at how much Rosa was affected by her background. It took her over a year to trust me enough to sit on my knee, she was always weary of people's feet and didn't particularly like men near her . But in time she grew to trust me and at home with me she was fine. She would approach visitors to our home for a fuss, so long as I was there too. She was well known in my village for following me if I went for a short walk down to Llyn Nantlle Lake.
But she was always a nervous cat and at the vets her former vet [redacted] used the term
" frozen Rosa " whenever she needed to be examined. Which was very apt, Rosa would just cave in inside she was never aggressive, but I was always there talking to her.

Rosa and the way she suffered was the reason I returned to the animal centre I adopted her from as a volunteer until 2015. I suppose she's put me on that road , then followed my campaigning work for animals used in circuses and more, which seemed to become more high profile in recent years.

Veterinary provision for companion animals in Cymru.

I am sure from the regions and people you represent you will know the issues in regard to the challenges people face due to the rural nature of many parts of Cymru, public transport links etc. I also think that the rise in veterinary practices being bought out by corporate companies have hit us harder than other parts of the UK.

Benny my previous cat was insured (my Mam paid for that month by month after I lost Holmes) he received good care from the veterinary practice I used in Caernarfon. Even though he had a multitude of clinical conditions, including a Cardio Myopathy, Diabetes Mellitus (he was insulin dependent) and eventually Hyperthyroidism.
Until 2014 the practice was owned and run by a married couple who are both veterinary surgeons. They sold the practice that year to a company called Independent Vetcare (IVC).

In 2011 IVC owned twenty practices in the UK by 2018 they owned 624 . This is not including the Vets Now practices and three OOH hospitals which the Vets Now brand owned, which IVC bought in February this year.

I naturally took Rosa there from May 2011. When the practise was sold I remember asking one of the Clinical Directors [redacted] about this happening. [redacted] replied " you will not notice any difference Linda, everything will be the same for Rosa and yourself ". I used that same veterinary practice for sixteen years, I did notice a change in the ethos and ethics. I felt some " up selling" was going on , which I don't consider has any place in small animal practise on animal welfare grounds. Many veterinary surgeons feel the same way too. The turnover of staff started to increase to.

The attached link shows just how few Independently run veterinary practices there are now in Cymru. **1**

Pet insurance.

I tired to get insurance for Rosa without success. Once her FIV+ statues was diagnosed in January 2018 (a test her vets did without my knowledge or consent) there was no chance I would have got insurance for her. As the text of my petition states many owners cannot get insurance for a variety of reasons. Including canines that have been exempted under the breed specific legislation (BSL).

The insurance route sadly is not an option for many different reasons for even the most responsible owners.

Out of hours veterinary provision (OOH)

Up until 2014 in my part of North West Wales only one veterinary practice didn't provide their own OOH cover, the only one that was run by a corporate company. However this picture has changed completely in recent years. Many owners now have to travel to Colwyn Bay to access OOH provision. With an OOH fee starting at £165.50p
(depending on the time of the consultation) plus their standard consultation fee of £49.50p are charged.

In June 2014 I gave oral evidence to the Standards Committee of the RCVS on their consultation on out of hours (OOH) provision. Out of 28 other " stakeholders " I was the only member of the public the college called to give oral evidence. In his written evidence Dr James Yeates then the Chief Veterinary Officer of RSPCA England and Wales (now CEO of Cats Protection) stated that at all levels of their organisation (branch and national) it was becoming common practice for vets to refuse to even see an animal and their owner to provide the required
" first aid and pain relief " their code of conduct requires them to do .

This consultation came about because of the case of a veterinary surgeon who worked for Vets Now (now owned by IVC) who refused to leave his veterinary practice to treat a dog whose owner had heartbreakingly ran over by mistake on their farm . An online petition started by a veterinary surgeon and numerous calls from those within the profession for further guidance on OOH provision was the context in which this consultation was conducted.

In 2014 I knew OOH provision was increasing being provided by providers like Vets Now. That was why I wanted to give evidence because My Benny and I had received good care at all times from our veterinary practice.

Economic euthanisea.

Section 8:4 of the Code of Professional Conduct for Veterinary Surgeons as laid out by the RCVS says:

" The Primary purpose of euthanisea is to relieve suffering. The decision to follow this option is based on many factors.....**and the ability of the owner to pay for private treatment** ". **2**

I recognise that an FIV+ diagnosis in a feline is a complex issue. FIV basically means that the immune system of a feline is compromised. But there are various stages of this condition. It is widely recognised by many experts and rescues that FIV+ felines can live a long life with the right care and understanding. With My Rosa I felt I was fighting a battle on two fronts her FIV and her vets, who at times wouldn't even try. I could add much more in this regard sadly.

I was shocked at how many times the option of euthanisea was offered to me . It was just added on to the list of options. I do think there is a strong element of
" economic euthanisea " being offered to owners these days by veterinary surgeons. I think many people would be shocked to see that the above clause is actually contained within the code of conduct for a VS. To my mind it is contrary to the oath they take and the ethics that they should be promoting. The rise in the corporates companys entering the market in Wales adds to this issue too I feel . I was staggered and still am with hearing so many accounts similar to my own situations when FIV wasn't even in the equation.

Third sector assistance.

As I mentioned in the text of my petition many charity's are struggling with the rise in requests for help. In my part of Wales there is no third sector animal hospitals. While South Wales have several. I have been told the criteria for providing such a service is the number of residents. Which is understandable, but seems to discriminate against those who live in rural areas. My Rosa did benefit from assistance from the PDSA before they had to change the criteria. Which I was extremely grateful for , this situation isn't the fault of the third sector organisations who do sterling work . But provision in Cymru does alter radically in each area.

The Cabinet Secretary's letter .

I was greatful for the response Lesley Griffiths ' AM gave to you . I am very pleased that Lesley and the Welsh Government recognises that such a scheme could be beneficial to owners. I think this also links in with the WG recent statement that they recognise animals as senitent beings.

However I think that the newly formed group CAWGW
(companion animal welfare group Wales) would also be a very good group to involve and consult with in this matter . As several members are involved in running rescues and see the issues involved at first hand. I think the rise in companion animals being abandoned and signed over to rescues and the rise in veterinary fees is linked. Many in this field have expressed this opinion to me. So such a scheme would help them too .

Conclusion.

Animal welfare is the responsibility of our Welsh Government and Welsh Assembly, we have made such strides in this area. Such a scheme would be groundbreaking - quite a statement.

I am aware that sharing your home and life with a companion animal is a choice not a right . But such animals bring such richness and for many living in isolated areas they can be the only family their owner has. We also in turn have a responsibility to them as a society, not just as individuals as our former First Minister Carwyn Jones AM said so eloquently.

My Rosa was a treasured member of my family. I would like others to have options that both she and I where not afforded. So some of the fear and anguish I suffered at one of the most difficult times in my life is taken on broad and built upon. For the benefit of other owners and animals who are as equally cherished as My Rosa was.

As ever I would be willing to assist you further as you consider this matter, if you think this would be helpful.

Cofion

1. http://www.independentvets.co.uk/

2. https://www.rcvs.org.uk/setting-standards/advice-and-guidance/code-of-professional-conduct-for-veterinary-surgeons/supporting-guidance/euthanasia-of-animals/

P-05-900 Ymchwilio i'r ffordd y mae rhieni'n cael eu trin gan y gwasanaethau cyhoeddus

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Reann Jenkins, ar ôl casglu cyfanswm o 121 lofnodion.

Geiriad y ddeiseb:
Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i adolygu'r ffordd y mae rhieni a theuluoedd, yn enwedig y rheini sydd â phlant anabl, yn cael eu trin gan y gwasanaethau cyhoeddus gan gynnwys y GIG, ysgolion a'r gwasanaethau cymdeithasol.

Mae teuluoedd yn cael eu bygwth ar gam a'u trin yn wael gan weithwyr proffesiynol fel meddygon, nyrsys, y gwasanaethau cymdeithasol a staff mewn ysgolion. Mae'n rhaid i hyn ddod i ben.

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Pen-y-bont ar Ogwr
- Gorllewin De Cymru

Ymchwilio i'r ffordd y mae rhieni'n cael eu trin gan y gwasanaethau cyhoeddus

Y Pwyllgor Deisebau | 1 Hydref 2019
Petitions Committee | 1 October 2019

Cyfeirnod: RS19 / 10342-1

Rhif y ddeiseb: P-05-900

Teitl y ddeiseb: Ymchwilio i'r ffordd y mae rhieni'n cael eu trin gan y gwasanaethau cyhoeddus

Testun y ddeiseb: Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i adolygu'r ffordd y mae rhieni a theuluoedd, yn enwedig y rheini sydd â phlant anabl, yn cael eu trin gan y gwasanaethau cyhoeddus gan gynnwys y GIG, ysgolion a gwasanaethau cymdeithasol.

Mae teuluoedd yn cael eu bygwth ar gam a'u trin yn wael gan weithwyr proffesiynol fel meddygon, nyrsys, y gwasanaethau cymdeithasol a staff mewn ysgolion. Mae'n rhaid i hyn ddod i ben.

1. Y cefndir

1.1. Cymorth i rieni

Yn ogystal â chanolbwyntio ar sut mae plant a phobl ifanc yn cymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi nifer o ddogfennau a allai fod yn berthnasol i'r ddeiseb o ran rhieni. Mae rhai enghreifftiau'n cynnwys:

- Cymorth i rieni
- Ymgysylltu a chymorth wrth rianta: canllawiau i ddarparwyr.

1.2. Addysg ac ysgolion

O ran canllawiau a pholisi, mae ystod o gyfeiriadau at rieni, yn dibynnu ar yr agwedd ar addysg sy'n cael ei hystyried, er enghraifft:

- Anghenion addysgol arbennig - canllawiau ar gyfer gofalwyr a rhieni;
- Taflen ffeithiau am anghenion dysgu ychwanegol ar gyfer plant, pobl ifanc, rhieni a gofalwyr.

Mae Adran 29 o Ddeddf Addysg 2002 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu pob ysgol a gynhelir yng Nghymru sefydlu gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â chwynion a chyhoeddi gweithdrefnau o'r fath. Gall cyrff llywodraethu roi gweithdrefn gwyno o'u dewis ar waith ond mae Llywodraeth Cymru yn argymell eu bod yn mabwysiadu'r weithdrefn gwyno enghreifftiol a nodwyd yn eu canllawiau yn 2012, *Gweithdrefnau Cwyno ar gyfer Cyrff Llywodraethu Ysgolion*.

1.3. Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Daeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i rym ym mis Ebrill 2016. Ei nod yw gwella llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth, a gofalwyr sydd angen cymorth. Mae'r Ddeddf yn newid y ffordd y mae anghenion pobl yn cael eu hasesu a'r ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu darparu. O ganlyniad, dylai pobl gael mwy o lais yn y gofal a'r gefnogaeth a gânt. Mae'r Ddeddf yn gosod nifer o ddyletswyddau ar awdurdodau lleol, byrddau iechyd a Gweinidogion Cymru. Mae'n ei gwneud yn ofynnol iddynt weithio i hyrwyddo llesiant y rhai sydd angen gofal a chefnogaeth , neu ofalwyr sydd angen cymorth. Nod y Ddeddf oedd newid y sector gwasanaethau Cymdeithasol fel bod:

- Pobl â mwy o reolaeth dros ba gymorth y maen nhw'n ei gael, a'u bod yn cael gwneud penderfyniadau am eu gofal a'u cymorth fel partner cyfartal;
- Pobl yn cael asesiad o'u hanghenion gofal a chymorth sy'n edrych ar gapasiti, adnoddau a'r canlyniadau y mae angen i bobl eu sicrhau, ac wedyn nodi'r ffordd orau i'w cefnogi er mwyn eu cyflawni;
- Gofalwyr yn cael yr un hawl i gael asesiad ar gyfer cymorth â'r bobl hynny y maen nhw'n gofalu amdanyn nhw;
- Mynediad hawdd at wybodaeth a chyngor ar gael i bawb;
- Pwerau i ddiogelu pobl yn gryfach;
- Dull ataliol yn cael ei gymryd i ddiwallu anghenion gofal a chymorth; a
- Awdurdodau lleol a byrddau iechyd yn dod ynghyd mewn partneriaethau statudol newydd i ysgogi integreiddio, arloesi a newid gwasanaethau.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi dogfen sy'n egluro elfennau hanfodol y Ddeddf. Bydd gan bob awdurdod lleol ei gweithdrefn gwyno ei hun o ran gwasanaethau cymdeithasol a dylai manylion am hyn fod ar eu gwefannau unigol.

1.4. GIG Cymru

Mae Tudalen we GIG Cymru yn cyfeirio at 'ofal sy'n canolbwyntio ar y claf' ac mae'n nodi:

> Gall cydgynhyrchu helpu i ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, sy'n rhoi blaenoriaeth i wneud cleifion, eu teuluoedd a'u gofalwyr yn ganolog i bob penderfyniad a chynllun sy'n ymwneud â gofal iechyd.

Mae hefyd yn cyfeirio at safonau ar gyfer gwasanaethau iechyd Cymru - canllawiau atodol. Mae gwybodaeth hefyd am atebolrwydd yn y GIG yng Nghymru ac am 'weithio i wella'.

1.5. Deddf Cydraddoldeb 2010

Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau cyhoeddus wedi'u cynnwys dan 'y ddyletswydd gyffredinol' o dan ddarpariaethau Deddf Cydraddoldeb 2010. Nod y ddyletswydd gyffredinol yw sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus a'r rhai sy'n cyflawni swyddogaeth gyhoeddus yn ystyried sut y gallant gyfrannu'n gadarnhaol at gymdeithas decach drwy hyrwyddo cydraddoldeb a chysylltiadau da yn eu gweithgareddau o ddydd i ddydd. Mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus roi sylw dyledus i'r angen i:

- ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erlid anghyfreithlon ac ymddygiad arall a waherddir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- datblygu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phobl nad ydynt yn rhannu'r nodwedd honno, a
- meithrin perthnasoedd da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a rhai nad ydynt yn rhannu'r nodwedd honno.

Cyhoeddwyd Canllawiau i awdurdodau cyhoeddus ar weithredu eu dyletswyddau gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn 2014.

Mae Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 yn nodi dyletswyddau penodol a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2011. Mae hyn yn cynnwys Rheoliad 10 sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdod wneud unrhyw drefniadau y mae'n eu hystyried yn briodol i hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth ymhlith ei weithwyr o'r ddyletswydd gyffredinol ac o'r dyletswyddau yn y Rheoliadau hyn. Dylai awdurdod hefyd nodi unrhyw anghenion hyfforddi sydd gan ei weithwyr mewn perthynas â'r dyletswyddau hynny, a mynd i'r afael â hwy. Mae'r rheoliadau hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ymgysylltu â phobl sy'n cael eu heffeithio gan y penderfyniadau a wneir gan awdurdodau cyhoeddus.

1.6. Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Mae canllawiau ar sut i gwyno am gorff cyhoeddus ar gael ar wefan yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae hyn yn nodi y bydd yr Ombwdsmon:

- Fel arfer yn disgwyl i unigolyn, yn gyntaf, fod wedi cwyno i'r corff cyhoeddus a rhoi cyfle iddo ymateb i'r gŵyn. Mae eithriadau os bydd yr Ombwdsmon yn ystyried bod eich cwyn yn destun brys neilltuol;
- Yn methu ag ymchwilio i'r gŵyn os oes hawl gyfreithiol i apelio neu hawl i fynd â'r mater i'r llys;
- Fel arfer yn disgwyl i gwynion gael eu cyflwyno o fewn 12 mis ar ôl i chi ddod yn ymwybodol o'r broblem. Fodd bynnag, os yw amser eisoes wedi'i dreulio'n cwyno'n uniongyrchol i'r corff dan sylw, bydd yn ystyried hynny.

Mae'r canllawiau'n awgrymu y dylid trafod cwynion posibl â'r Tîm Cyngor ar Gwynion ar 0300 790 0203 a all roi cyngor a yw'r mater yn rhywbeth y gall yr Ombwdsmon ei ystyried a'r ffordd orau ymlaen.
Gellir gwneud cwynion ar-lein, neu ddefnyddio ffurflen oddi ar wefan yr Ombwdsmon. Os yw'r Ombwdsmon yn credu bod y gŵyn yn un y gall ei hystyried ac os yw'n credu y bu methiant ar ran y corff cyhoeddus, bydd yn ystyried a yw'n bosibl datrys y mater yn anffurfiol. Os nad felly, ac os yw'n ymddangos ei bod yn bosibl y bu methiant difrifol ar ran y corff cyhoeddus, bydd yn dechrau ymchwiliad ffurfiol.

1.7. Comisiynydd Plant Cymru

Mae swyddfa Comisiynydd Plant Cymru yn darparu gwaith achos a chymorth eiriolaeth am ddim i blant a theuluoedd. Mewn rhai amgylchiadau byddant yn cymryd achos plant unigol a gallant gysylltu â phartïon perthnasol ar eu rhan. Mae'r wefan yn datgan:

Mae ein gwasanaeth Ymchwiliadau a Chyngor yn gyfrinachol ac ar gael am ddim. Mae yno i roi cyngor a chefnogaeth os bydd plant, pobl ifanc neu'r rhai sy'n gofalu amdanyn nhw yn teimlo bod plentyn wedi cael ei drin yn annheg.

2. Ymateb Llywodraeth Cymru

Mewn ymateb i'r ddeiseb ar 13 Awst 2019, mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi dweud:

> The Welsh Government is committed to ensuring equality for people with disabilities and their families. We have a wealth of legislation and guidance in place to ensure disabled people and their families are supported. Following consultation, we are finalising the Welsh Government's new Framework – 'Action on Disability: The Right to Independent Living', which will be published later this summer. One of the aims is to promote equality of opportunity and support disabled people to more easily and readily access resources and mainstream services.
>
> All public bodies have a complaints procedure to follow should individuals be unhappy with the services they have received or the way they have been treated. Should they submit a complaint and be unhappy with the outcome then they could ask the Public Services Ombudsman for Wales to investigate.

Cyhoeddwyd Gweithredu ar Anabledd: Fframwaith yr Hawl i Fyw'n Annibynnol ym mis Medi 2019.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r

papurau briffio hyn o reidrwydd yn cael eu diweddaru na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

Vaughan Gething AC/AM
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref Petition P-05-900
Ein cyf/Our ref VG/07245/19

Janet Finch-Saunders AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Caerdydd
CF99 1NA

SeneddDeisebau@cynulliad.cymru

13 Awst 2019

Annwyl Janet,

Diolch ichi am eich llythyr 17 Gorffennaf yr ydych wedi'i gael oddi wrth Reann Jenkins yn gofyn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru adolygu'r ffordd y mae rhieni a theuluoedd, yn enwedig y rhai â phlant anabl, yn cael eu trin gan wasanaethau cyhoeddus gan gynnwys y GIG, ysgolion a gwasanaethau cymdeithasol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau cydraddoldeb i bobl ag anableddau a'u teuluoedd. Mae gennym gyfoeth o ddeddfwriaeth a chanllawiau i sicrhau bod pobl anabl a'u teuluoedd yn cael eu cefnogi. Yn sgil ymgynghori, rydym yn pennu manylion terfynol fframwaith newydd Llywodraeth Cymru - 'Gweithredu ar Anabledd: Yr Hawl i Fyw'n Annibynnol', a gyhoeddir yn nes ymlaen yr haf hwn. Un o'r nodau yw hybu cyfle cyfartal a chefnogi pobl anabl i gael mynediad haws at adnoddau a gwasanaethau prif ffrwd.

Mae gan bob corff cyhoeddus weithdrefn gwyno i'w dilyn os bydd unigolion yn anfodlon ar y gwasanaethau y maent wedi'u cael neu'r ffordd y maent wedi cael eu trin. Os byddant yn cyflwyno cwyn ac yn anfodlon ar y canlyniad yna gallent ofyn i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ymchwilio.

Yn gywir,

Vaughan Gething AC/AM
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

P-05-900 Look into the way parents are being treated by public services, Correspondence – Petitioner to Committee, 01.10.19

My petition is being looked at by the committee today I have written to the U.K. government as I feel the Welsh Government is hiding behind complaints policy's that make it harder for parents/ families the Welsh Government refuses to listen to the fact that families / parents who are for disabled children & adults are being failed leaving parents to struggle or turn to charity's who also struggle because of funding parents are fighting for things such as equipment or support....many families/ parents are being bullied by professionals a number of times it's happened to my self which leaves me at breaking point I do my very best as a mother my partner finds its hard because of its s constant fight and worry especially when professionals abuse their position for examples I made a complaint regarding being refused a wheelchair for my [child] when [they were] little that physio then went on to fabricate lies about my family which was very hurtful...a head teacher [...] took a dislike to me and decided to try and report me to social services one being over my [infant child] wearing children make up glitter I found out this at tribunal....being investigated and treated like a criminal over my [child] having a pressure sore ([they use] a wheelchair) it happened in school yet that was not investigated... social services have made mistakes yet nothing done and regardless of how many times I go through complaints policy they all get away with it I contact the Welsh Government and they refuse to step in ... I'm still to this day waiting for answers from Bridgend council I asked them a handful of questions one being I made a complaint regarding a support worker at school they then went on to report my [child] going to school Dirty & smelly ([they] didn't report it to school) and school as supported me as it Is not true yet the inclusion service refuse to answer why the staff member fabricated lies and what actions being done something as a parent deserve to know .... many families are being put through hell and I'm urging the Welsh assembly to support my petition it's a cruel world we live in we've done nothing wrong .. our children have done nothing wrong so why are professionals allowed to get away with it ? It's because they can

Please note: The square brackets used above denote where this document has been redacted to remove third party personal data for publication purposes.

P-05-738 Deiseb Gyhoeddus ar gyfer Ffordd Osgoi i Ddinas Powys

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan V P Driscoll, A R Robertson and R T Harrod ar ôl casglu 3,305 llofnod – 2,572 ar bapur a 733 ar-lein.

Geiriad y ddeiseb

Rydym ni sydd wedi llofnodi isod yn galw ar i Gynulliad Cenedlaethol Cymru annog Lywodraeth Cymru i ddarparu'r cyllid a'r cymorth sydd eu hangen ar gyfer adeiladu Ffordd Osgoi i Ddinas Powys.

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Bro Morgannwg
- Canol De Cymru

Ein cyf/Our ref KS/07291/19

Janet Finch-Saunders AM
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deisebau

Government.Committee.Business@llyw.cymru

16 Awst 2019

Annwyl Janet,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 29 Gorffennaf ar ran y Pwyllgor Deisebau ynghylch Deiseb P-05-738, Deiseb Gyhoeddus ar gyfer Ffordd Osgoi Dinas Powys.

Mae nifer o gynigion o ran trafnidiaeth yn cael eu cyflwyno a allai fod o fudd i Ddinas Powys a'r ardal ehangach. Mae’r rhain yn cynnwys gwelliannau o dan y fasnachfraint reilffordd newydd a diwygio gwasanaethau byrsiau drwy’r cynigion deddfwriaethol sy’n cael eu cyflwyno fel rhan o Fil arfaethedig Trafnidiaeth Gyhoeddus (Cymru). Bydd y newidiadau a gaiff eu cynnig yn y Bil yn ceisio mynd i’r afael â rhai o effeithiau negyddol dadreoleiddio ar ddefnyddwyr, gweithredwyr ac awdurdodau, a hynny drwy greu nifer o ddulliau a fyddai’n galluogi awdurdodau lleol i ymyrryd os byddant yn dymuno gwneud hynny.

Yn ogystal â gwelliannau i'r system trafnidiaeth gyhoeddus rydym yn cydweithio'n agos ag awdurdodau lleol er mwyn pennu pecyn o fesurau ar hyd coridorau allweddol yn Ninas-ranbarth y Brifddinas er mwyn mynd i'r afael â thagfeydd ar y ffyrdd ac annog pobl i ddefnyddio dulliau trafnidiaeth cynaliadwy yn hytrach na'u ceir.

Yn gywir,

Ken Skates AC/AM
Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth
Minister for Economy and Transport

P-05-738 Public Petition for the Dinas Powys By-Pass, Correspondence – Vale of Glamorgan Council to Chair, 7.10.19

Dear Ms Finch-Saunders

Petition P-05-738 Public Petition for the Dinas Powys By-Pass

Thank you for your further letter dated 25th July 2019 in respect of Petition P-05-738 – Public Petition for the Dinas Powys By Pass where you ask two further questions. I apologise for not responding sooner due to leave commitments of the key officer for the Project.

I can confirm that currently the Stage 2 study for Dinas Powys is being completed by Arcadis Consulting. I anticipate a report being available for review and then public consultation in late 2019/ early 2020.

In terms of your second point in relation to not progressing with the "blue route" option I would refer you to the Cabinet decision on this matter which can be found here minute 656:
https://www.valeofglamorgan.gov.uk/Documents/_Committee%20Reports/Cabinet/2019/19-04-15/Minutes-19-04-15.pdf

I hope this answers your additional questions.

Yours sincerely

Councillor Neil Moore

Leader of the Council

P-05-738, Public Petition for the Dinas Powys By-Pass, Correspondence – Petitioner to Chair, 07.10.19

Dear Chair,

P-05-738, Public Petition for the Dinas Powys By-Pass.

We'd like to respond to the latest communications your Office has received from the Cabinet Secretary for Economy and Transport, Ken Skates A.C./ A.M. and new Vale Council Leader Cllr Neil Moore since the last time this item came before your Committee.

On 30th August 2018 Minister Skates wrote to the Chair of the By-Pass Steering Group (now the Barry to Cardiff Link Road Group). He referenced a request by the Dinas Powys Community Council to the Vale Council Cabinet in April 2018 to extend the scope of the Dinas Powys Transport Study and to include an alternative by-pass route which Consultant / officers have referred to as the Blue route.

*(*http://www.valeofglamorgan.gov.uk/Documents/_Committee%20Reports/Cabinet/2018/18- 04-16/Reports/Dinas-Powys-Transport-Study-Cabinet-Report.pdf*)*

This extension was proposed to enable the whole Barry to Cardiff corridor to be covered by the WelTAG Stage 2 study. The Blue route and the accompanying upgrading of some existing roads would by-pass the A4055 from Merrie Harrier to Fford y Mileniwm thereby relieving traffic congestion for the whole corridor.

The consultant Arcadis included outline work on the Blue route in its draft Stage 2 report submitted in September 2018.

LATEST CHANGE COULD CAUSE BARRY GRID-LOCK

However, since the draft Stage 2 report was submitted there has been a dramatic reversal of the Cabinet's earlier decision that could seriously jeopardise the financial viability of a by-pass and result in grid-lock of traffic on the section of the A4055 which would not be by-passed.

In April 2019 the then Vale Cabinet changed their earlier scope extension decision by stopping further work on the Blue Route following the motion of a single councillor on the Environment and Redevelopment Scrutiny Committee. Dinas Powys Community Council asked for time to comment on the planned reversal of the unanimous request made by them in February 2018.

Unfortunately an error that has not been attributable resulted in the Community Council not commenting on the change and the Scrutiny recommendation being accepted.

> N.B. Regarding the Blue Route change, a spokesman for the new Vale Council Cabinet led by Cllr Neil Moore informed the media in July 2019: "These comments (Scrutiny regarding Blue Route) seem to reflect the view of a few members of the committee during discussions and **do not** reflect the rationale for a final decision."

Written attempts to gain clarification of this statement from Cllr Moore, from the cabinet member for Roads, Cllr Peter King and from Deputy Leader Cllr Lis Burnett have gone without response.

Vale leader Cllr Neil Moore wrote to the Committee this week referencing the minutes of the Cabinet meeting on 15th April 2019 when he was not a cabinet member.

However, we would submit that those minutes do not substantiate the so-called 'reasons' given for halting work on the Blue route. These were:-

- **Slowing study completion.** But no progress evidence March – October 2019.
- **Dispersal of Assests (?)** WelTAG requires consideration of cost-benefit ratio not just cost.
- **Too many options**. WelTAG requires all options to be properly compared.
- **Traffic direction**. Consultant states considerable majority of traffic through Dinas Powys is from or to Barry **not** the Link Road as incorrectly claimed.

How can the Review Group and the Public at a future consultation make observations, comments or suggestions if the Draft Report has had a major scope change since its arrival at Council in September 2018?

The decision to reverse the scope variation would appear to be non-compliant with WelTAG in that it was made **before** either the Review Group has commented on the technical aspects of updated report or a Public Consultation has taken place. (N.B. The only Public Consultation held on this Study to date was on **March 13th 2017**).

WelTAG states the process should :

> i.) Involve people affected by decisions as a requirement of the Wellbeing of Future Generations Act

II.) share understanding between those involved in making the decisions and those affected by those decisions. This (It) underlies the importance of stakeholder involvement and public consultation in the gathering of evidence of the need for an intervention, the setting of the criteria against which proposed options will be assessed, and the likely impacts of each option.

Without the Blue Route there would be no true comparison or evaluation of different by-pass routes. It would leave just the Green Route that by-passes only the section of the A4055 through Dinas Powys.

There is also a Pink option which is the same as the Green Route but with an added roundabout.

Neither the Green or Pink options would relieve predicted traffic congestion on the A4055 from Biglis to Ffordd y Mileniwm as referenced beneath.

NO DEVELOPMENT PROPOSAL

The Minister also refers to the Council being asked by us to consider a development proposal that would be more easily facilitated by the Blue route. He rightly indicates that this type of proposal needs to be considered via the proper processes and probably as part of any future review to the Adopted Local Development Plan.

However, there has been a major misinterpretation of discussions between representatives of our Group and Council Officials regarding this suggestion. Neither any of our Members nor any of our Pro Bono Consultants have at any time put forward any ‘proposed development’ from which any / all might benefit financially. We have only expressed ideas that might be pursued by others and give considerable added value for the alternative route.

Figures of 5,000 potential jobs and £200 Million added GVA P.A. have been indicated by consultants as a potential for development on around 200 acres of employment land, by whoever might be commercially interested.

Daw'r diffiniad hwn o'r paragraff cyntaf yn ymateb y Llywodraeth i ddeiseb Mr. Darren Towill sydd i'w gweld yn: https://petition.parliament.uk/petitions/164983 Mae CAFCASS Lloegr eisoes wedi cydnabod bod unrhyw un sy'n dieithrio plentyn oddi wrth riant yn euog o gam-drin y plentyn hwnnw. Mewn erthygl yn y Telegraph ar-lein, dyddiedig 12 Chwefror, 2017, dywedodd Anthony Douglas, Prif Weithredwr CAFCASS, fod Dieithrio Plentyn oddi wrth Riant yn sicr gyfystyr ag esgeuluso neu gam-drin plentyn, o ran ei effaith
bosibl. http://www.telegraph.co.uk/news/2017/02/12/divorced-parents-pit-children-against-former-partners-guilty/

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Gorllewin Caerdydd
- Canol De Cymru

Cafcass Cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Janet Finch-Saunders AM
Chair
Petitions Committee
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

30 August 2019

Dear Janet Finch-Saunders AM

Petition P-05-751 Recognition of Parental Alienation

Further to my letter dated 17 July 2019, I am pleased to inform the Committee the Cafcass Cymru practice guidance has recently been published on the Cafcass Cymru website.

The document can be found here:

https://gov.wales/childrens-resistance-or-refusal-spend-time-parent-cafcass-cymru-practice-guidance

I also attach a bilingual copy of it to this correspondence.

Yours sincerely

Nigel Brown
Chief Executive, Cafcass Cymru

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ
Ffôn • Phone: 03000 628877

Cafcass Cymru

Anfodlonrwydd neu Wrthodiad Plant i Dreulio Amser gyda Rhiant: Canllawiau Ymarfer

Cyhoeddwyd f1
Mehefin 2019

Cynnwys

Anfodlonrwydd neu Wrthodiad Plant i Dreulio Amser gyda Rhiant: Canllawiau Ymarfer

Wedi'u haddasu o ganllawiau a ddatblygwyd gan Cafcass a'u defnyddio trwy ganiatâd caredig Cafcass

Cyflwyniad

Mae Cafcass Cymru yn darparu cyngor a chymorth arbenigol yn canolbwyntio ar y plentyn, i ddiogelu plant a sicrhau y clywir eu lleisiau mewn llysoedd teulu ledled Cymru er mwyn gwneud penderfyniadau gorau er eu lles nhw.

Caiff yr holl achosion yr ydym yn gweithio arnynt eu cyfeirio atom gan lys. Lles y plentyn yn y dyfodol sydd wrth wraidd pob penderfyniad ac argymhelliad a wneir gan Cafcass Cymru. Rydym yn rhan o Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru. Rydym yn atebol i'r Gweinidog a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Yn 2011 Cymru oedd y wlad gyntaf yn y DU i ymgorffori hawliau plant i gyfraith ddomestig trwy gyflwyno Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011. Mae'r Mesur yn ymwreiddio ystyriaeth o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) a'r gweithdrefnau dewisol yng nghyfraith Cymru. Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i holl Weinidogion Cymru ystyried hawliau plant wrth arfer eu swyddogaethau. Mae Cynllun Hawliau Plant 2014 yn nodi'r trefniadau sydd gennym ar waith i gydymffurfio â'r ddyletswydd i ystyried CCUHP yn briodol ac mae'n adlewyrchu ein hymrwymiad parhaus i hawliau plant.

Ein swyddogaethau statudol yw:

- Diogelu a hyrwyddo lles plant;
- Rhoi cyngor i unrhyw lys ar unrhyw gais a wneir iddo mewn achosion o'r fath;
- Darparu cynrychiolaeth i blant mewn achosion o'r fath;
- Darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth arall i blant a'u teuluoedd.

Yng nghyd-destun anghydfod rhwng rhieni sydd wedi gwahanu ynghylch trefniadau plant, bydd plant sy'n anfodlon a/neu'n gwrthod treulio amser gyda rhiant yn elfen reolaidd o achosion y mae Cafcass Cymru yn ymwneud â nhw. Wrth gofio hyn, nod y canllawiau ymarfer hyn yw cyflwyno'r meddylfryd, ymchwil, deddfwriaeth a chyd-destun cyfreithiol diweddaraf i ymarferwyr Cafcass Cymru er mwyn sicrhau bod plant a'u teuluoedd yn cael gwasanaeth o safon yn seiliedig ar dystiolaeth sy'n canolbwyntio ar gyflawni'r gorau er lles y plant.

Bwriad y canllawiau hyn yw eich cynorthwyo a'ch helpu i feddwl am yr effaith ar blant sy'n anfodlon neu'n gwrthod treulio amser gyda rhiant ac ystyried y ffordd orau o ymdrin ag achosion o'r fath er lles y plentyn.

Nid bwriad y canllawiau hyn yw bod yn rhagnodol, dylid eu defnyddio i gynorthwyo ymarfer; mae'n cynnwys argymhellion ar gyfer deunydd darllen ychwanegol a chymhwyso gweithdrefnau sefydliadol yn ymarferol. Dylid darllen y canllawiau hyn ar y cyd â:

- Canllawiau Ymarfer ar Gam-drin Domestig Cafcass Cymru

- Canllawiau Ymarfer ar Wrthdaro Niweidiol Cafcass Cymru

Dylai ymarferwyr hefyd ymgyfarwyddo â gweithdrefn diogelu Cafcass Cymru.

Mae gan Cafcass Cymru fframwaith clir wrth i ni weithredu yn unol â Deddf Plant 1989, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Rheolau Gweithdrefn Deuluol a pholisïau a gweithdrefnau mewnol sy'n rhoi sylfaen, arweiniad a strwythur i'n gwaith. Ym mhob agwedd, mae angen inni ddod o hyd i'r dull iawn trwy ystyried anghenion unigol pob plentyn a'r effaith ar eu profiad o fywyd.

Asesu'r Rhesymau pam mae Plentyn yn Anfodlon neu'n Gwrthod Treulio Amser gyda Rhiant neu Ofalwr

Sylwer: Gall plentyn wrthod neu fod yn anfodlon hefyd mewn ymateb i wrthdaro. Nododd Kelly a Johnston (2001) y gall anfodlonrwydd fod wedi'i wreiddio'n bennaf mewn priodas ac ysgariad lle ceir llawer o wrthdaro (e.e. ofn neu fethu ag ymdopi â'r newid llawn gwrthdaro). Os nodir bod hyn yn ffactor ar unrhyw bwynt o'r achos, dylid cyfeirio at yr offer a'r canllawiau ymarfer ar wrthdaro niweidiol, sy'n cynnwys effeithiau posibl ar blant a gwybodaeth m ymyriadau sy'n ceisio lleihau'r gwrthdaro rhwng rhieni.

Gall anfodlonrwydd neu wrthodiad plentyn ddigwydd am amrywiaeth o resymau. Efallai fod y plentyn wedi'i niweidio gan y rhiant neu fod arno ofn y rhiant (a elwir yn *wrthodiad â chyfiawnhad priodol*) (Fidler, Bala & Saini, 2013). Gall fod rhesymau yn ymwneud â dewis gweithredol y plentyn o ran sut y mae'n dymuno byw ei fywyd, neu efallai fod 'ymddygiad dieithrio' gan un o'r rhieni neu'r ddau wedi effeithio arno.

Gellir dosbarthu rhesymau plentyn dros wrthod neu fod yn anfodlon meithrin perthynas â rhiant/aelod o'r teulu i bedwar grŵp (Fidler, Bala & Saini, 2013), fel y nodir isod:

- Gwrthodiad â chyfiawnhad priodol
- Ymochri / cydnawsedd
- Ymlyniad
- Dieithrio



- Defnyddiwch eich cynllun achos ar gyfer cynllunio eich cyfweliadau â'r plentyn a'r rhieni a/neu ofalwyr fel y gallwch gasglu gwybodaeth berthnasol am y rheswm dros anfodlonrwydd neu wrthodiad y plentyn i dreulio amser gyda rhiant.
- Gall gweithio'n uniongyrchol gyda phlant fod yn ffordd rymus o helpu rhieni i weld y gwrthdaro trwy lygaid y plentyn.
- Mae dull Dadansoddi'r Effaith ar y Plentyn o weithredu adroddiadau adran 7 yn caniatáu dull creadigol sy'n canolbwyntio ar ddatrys anghydfod drwy gydol yr achos. Mae hyn yn

eich galluogi chi i fod yn greadigol yn y ffordd yr ydych yn sicrhau canlyniad sy'n cydweddu'n agosach at fuddiannau gorau'r plentyn.

- Gallwch hybu defnydd o'r cynllun rhianta ac ystyried atgyfeiriad drwy orchymyn llys i'r rhaglen Gweithio Gyda'ch Gilydd Er Lles Plant (WT4C).
- Mae gwrthdaro niweidiol a cham-drin domestig yn wahanol i 'ddieithrio' ac yn wahanol i'w gilydd. Mae 'dieithrio' yn un o nifer o resymau pam y gall plentyn wrthod neu fod yn anfodlon treulio amser gyda rhiant. Yn wir, gall rhai achosion gynnwys honiadau o gam-drin domestig ar yr un pryd â gwrth-honiadau o 'ddieithrio'

Prif Bwyntiau Ymarfer: Ymddygiad Dieithrio a'r Effaith ar Blant

Diffiniad: Ymddygiad Dieithrio a'r Effaith ar Blant

Mae'r diffiniad o ddieithrio plentyn oddi wrth riant fel cysyniad mewn achosion llys teulu, ei derminoleg gysylltiedig a'i raddfa, yn destun trafodaeth o hyd. Er nad oes un diffiniad y mae pawb yn cytuno arno, mae Llywodraeth Cymru a Cafcass Cymru yn cydnabod y gall rhai rhieni ymddwyn mewn ffordd sy'n dieithrio'r rhiant arall o fywyd y plentyn ac y gall yr ymddygiad hwn arwain at effeithiau andwyol sylweddol ar les emosiynol y plentyn. Nid yw Cafcass Cymru yn cydnabod bod dieithrio plentyn oddi wrth riant yn syndrom neu'n ddosbarthiad, ond yn hytrach yn 'ymddygiad dieithrio'. Y mater pwysicaf i ni yw yr ymdrinnir â'r ymddygiad hwn yn briodol, pan fydd yn codi, trwy ddefnyddio'r fframwaith rheoleiddio a chyfreithiol presennol. Gall y ddadl ynghylch a yw dieithrio yn syndrom dynnu sylw oddi wrth y pwyslais angenrheidiol ar yr effaith ar y plentyn. Eich swyddogaeth chi yw deall profiadau unigol plant a sut yr effeithir arnynt gan ymddygiadau.

Mae'n bwysig cydnabod bod yr ymadrodd dieithrio plentyn oddi wrth riant yn cyfeirio at amrywiaeth eang o ymddygiadau. Gall y rhain gynnwys un rhiant yn feirniadol o'r rhiant arall, gan darfu ar drefniadau cyswllt a gynlluniwyd, neu ffugio tystiolaeth a gwneud honiadau i niweidio, a/neu derfynu perthynas y plentyn gyda'r rhiant arall. Bydd yr effaith emosiynol ar y plentyn yn dibynnu ar i ba raddau y mae'r rheini yn dangos ymddygiadau dieithrio, oedran a datblygiad y plentyn a chadernid emosiynol y plentyn. Nid oes amheuaeth y gall ymddygiad o'r fath fod yn gyfystyr â cham-drin plant yn emosiynol.

- Mae'n bwysig nodi'n gynnar ymddygiadau nad ydynt yn ceisio eithrio un rhiant yn fwriadol o fywyd y plentyn, e.e. dros amser, gallai gwrthod sesiwn o amser gyda'r rhiant arall fel ymateb i ddychwelyd adref yn hwyr gyda'r plentyn olygu y bydd y plentyn yn dewis cymryd ochr ac yn optio allan o weld un rhiant. Os oes awgrymiadau bod perthynas dda'r plentyn yn flaenorol yn cael ei thanseilio ac na ellir cyfiawnhau hyn, mae angen ymchwilio i'r mater ymhellach. Gall yr ymddygiadau hyn gynnwys:
  - rhiant yn beirniadu neu'n bychanu'r llall yn gyson;
  - cyfyngu ar gyswllt;
  - gwahardd trafodaeth amdanynt; a
  - chreu a/neu gefnogi'r argraff nad yw'r rhiant arall yn hoffi neu'n caru'r plentyn.
- Gallant hefyd gynnwys dirmygu, brawychu, gwahanu, difetha neu ecsbloetio a gwrthod ymatebolrwydd emosiynol. Mae'r tactegau hyn yn meithrin cred anghywir bod y rhiant a ddieithriwyd yn beryglus neu'n annheilwng. Efallai y bydd plant yn addasu eu hymddygiadau a'u teimladau eu hunain i'r rhiant sy'n dieithrio i sicrhau y diwellir eu hanghenion ymlyniad (Baker, 2010).
- Gall dynion a menywod arddangos ymddygiadau dieithrio. Er y gall dieithrio gael ei arddangos gan un rhiant yn unig, mae'n aml yn wir y gall cyfuniad o ymddygiadau ac agwedd plant ac oedolion, gyda'r ddau riant yn chwarae rhan, arwain at y plentyn yn gwrthod neu'n gwrthwynebu un rhiant.
- Gellir dod o hyd i wybodaeth am hanes a chyd-destun dieithrio plentyn oddi wrth riant yn yr erthygl: Kelly. J a Johnston. J (2001) *The alienated child; a reformulation of parental alienation syndrome*. Family Court Review, 39 (3) pp. 249 – 266.

Prif Bwyntiau Ymarfer: Gwrthodiad Priodol Y Gellir Ei Gyfiawnhau

Diffiniad: Gwrthodiad priodol y gellir ei gyfiawnhau
Gwrthodiad y gellir ei gyfiawnhau gan y plentyn i dreulio amser gyda rhiant neu ymddieithriad realistig oherwydd rhianta niweidiol, gan gynnwys esgeuluso neu gam-drin neu gyfyngiadau rhianta sylweddol.

Ffactorau a dangosyddion:

* Ceir honiadau o gam-drin neu esgeuluso.
* Ceir honiadau o gam-drin domestig. Gallai hyn hefyd gynnwys ymddygiad cymhellol a rheoli, a allai fod yn bresennol yn ogystal â ffactorau eraill neu fod yn nodwedd annibynnol.
* Mae'r plentyn yn teimlo'n anniogel neu'n anhapus iawn yng ngofal y rhiant arall. Dylid ymchwilio i'r teimladau hyn trwy ddefnyddio gwaith uniongyrchol penodol.
* Mae'r rhiant y mae'r plentyn yn byw gydag ef wedi ymddwyn yn amddiffynol.
* Gellir cyfiawnhau gwrthod y rhiant arall oherwydd dim cyfranogiad, cyfranogiad bylchog neu gyfranogiad prin, diffyg profiad neu rianta gwael a allai gyrraedd y lefel o gam-drin neu esgeuluso.
* Mae gan y rhiant arall anawsterau iechyd meddwl nad ydynt yn cael eu rheoli, fel anhwylder personoliaeth, neu broblemau camddefnyddio sylweddau a/neu alcohol neu ffactorau eraill sy'n effeithio ar ei allu i ddarparu gofal priodol a chyson.

Pan fo'r ffactorau hyn yn bresennol, dylech gyfeirio at y canllawiau ymarfer ar gam-drin domestig; ystyried y problemau sy'n amlygu eu hunain a phenderfynu ar yr angen i'r llys gynnal gwrandawiad canfod ffeithiau – gweler canllawiau Canfyddiadau Ffeithiol Cafcass Cymru.

Hefyd, dylai angen y plentyn a'r oedolyn am ddiogelwch ac amddiffyniad fod yn flaenoriaeth. Felly, efallai y bydd angen i'r ymarferydd baratoi Adroddiad Asesu Risg 16a a/neu gwblhau atgyfeiriad diogelu i'r awdurdod lleol.

Dolen: Gweithdrefn Weithredol Diogelu Cafcass Cymru

Asesu Dangosyddion Cam-drin Domestig a Mathau Eraill o Rianta Niweidiol

- Y cam cyntaf wrth asesu'r rhesymau am anfodlonrwydd neu wrthodiad plentyn o riant yw ystyried a yw cam-drin domestig neu fathau eraill o rianta niweidiol eraill yn ffactorau.
- Nid 'gwrthdaro rhwng rhieni' yw cam-drin domestig, ond un person yn cael ei gam-drin gan un arall, yng nghyd-destun perthynas bersonol ag anghydbwysedd grym.
- Sylwer y gall plant fod yn destun ymddygiad cymhellol a rheoli fel ffordd o'u dieithrio oddi wrth riant, fel rhan o hanes hirach o'r cyflawnwr honedig yn rheoli'r dioddefwr ac yn parhau'r cam-drin hwn trwy achos llys teulu. Mae Cyfarwyddyd Ymarfer 12J yn dweud bod yn rhaid i'r llys ystyried yr effaith ar y rhiant y mae'r plentyn yn byw gydag ef, a'r perygl i'r rhiant hwnnw, cyn gwneud unrhyw Orchymyn Trefniant Plant.

Os yw cam-drin domestig, gan gynnwys ymddygiad cymhellol a rheoli, yn ffactor bosibl, cyfeiriwch at y canllawiau ymarfer ar gam-drin domestig. Mae hyn yn cynnwys lle mae'r dangosyddion canlynol yn cael eu honni, yn bresennol neu'n cael eu hamau – naill ai nawr neu yn y gorffennol (gan gynnwys, ond heb eu cyfyngu i):

- Wybodaeth yn ymwneud â phrif gyflawnwr
- Trais corfforol
- Trais rhywiol
- Ymddygiadau cymhellol, rheoli (tuag at blentyn neu fel oedolyn)
- Ymddygiadau stelcian a 'gwyliadwriaeth genfigennus'
- Anghydbwysedd grym
- Bygythiadau i ladd; mae'n rhaid cymryd unrhyw fygythiadau hysbys neu honedig o ddifrif hyd nes iddynt gael eu hasesu'n ddigonol i leihau risg bosibl a diogelu'r plentyn ac eraill mewn perygl
- Mae un rhiant neu'r ddau yn ofnus
- Roedd un rhiant neu'r ddau mewn perthynas flaenorol lle'r oedd cam-drin
- Mae plant yn efelychu ymddygiad treisgar
- Presenoldeb ymddygiadau diraddiol neu sy'n codi cywilydd
- Nodweddion o drais seiliedig ar 'anrhydedd' a / neu nodweddion o briodas dan orfod
- Cam-drin seicolegol fel galw enwau ar y dioddefwr, tanseilio hunan-barch neu reswm y dioddefwr, gwneud i ddioddefwyr deimlo mai nhw sydd ar fai, bygwth lladd eu hunain

Os honnir y dangosyddion canlynol, a'u bod yn bresennol neu'n cael eu hamau naill ai nawr neu yn y gorffennol, cyfeiriwch at y dulliau a'r canllawiau ar gyfer asesu effaith rhianta niweidiol. Mae'r rhain yn cynnwys ond heb eu cyfyngu i:

- Gamddefnyddio alcohol a/neu gyffuriau sy'n niweidiol i'r plentyn
- Effaith anawsterau iechyd meddwl, gan gynnwys anhwylderau personoliaeth, sy'n niweidiol i'r plentyn
- Esgeuluso
- Cam-drin corfforol
- Cam-drin rhywiol
- Cam-drin emosiynol a / neu seicolegol (gan gynnwys radicaleiddio)

Os nad yw'n ymddangos bod gwrthodiad priodol y gellir ei gyfiawnhau yn ffactor am reswm anfodlonrwydd neu wrthodiad y plentyn, dylech barhau i ystyried rhesymau posibl eraill am hyn.

Asesu'r Berthynas rhwng y Rhiant a'r Plentyn Cyn ac Ar Ôl Gwahanu, gyda Phwyslais ar Ystyried Ymochri, Cydnawsedd ac Ymlyniad

- Pennu disgwyliadau eglur gyda'r rhieni y byddwch yn canolbwyntio ar yr hyn fydd yr effaith ar y plentyn gan ddefnyddio'r llythyrau templed Dadansoddi'r Effaith ar y Plentyn hyn i rieni gynorthwyo. Gall y llythyrau hyn fod yn ddefnyddiol hefyd i'w rhoi i rieni pan nad yw Dadansoddiad o'r Effaith ar y Plentyn yn cael ei baratoi (h.y. 16.4, FAO)
- Defnyddiwch eich cynllun achos i ystyried sut y byddwch yn casglu gwybodaeth gan rieni, plant a gweithwyr proffesiynol i ateb y cwestiynau canlynol:
  - Beth yw tybiaeth pob rhiant o'r berthynas a oedd yn bodoli ymlaen llaw gyda'r rhiant sy'n cael ei wrthod? Os felly, beth oedd ansawdd y berthynas hon?
  - A yw ansawdd y berthynas wedi gwaethygu ar ôl gwahanu?
  - Sut oedd y tasgau a chyfrifoldebau rhianta yn cael eu rhannu cyn gwahanu?
  - Beth yw gallu pob rhiant i ddiwallu anghenion datblygiadol y plentyn, yn enwedig ei anghenion emosiynol, o ystyried y gwahaniad?
  - A oes gan y plentyn unrhyw anghenion ychwanegol neu gymhleth? Os felly, beth fu swyddogaeth pob rhiant o ran diwallu'r anghenion hyn a beth fydd y swyddogaethau hyn yn y dyfodol?
- Ystyriwch y prif bwyntiau ymarfer isod ar ymochri/cydnawsedd ac ymlyniad wrth ddatblygu eich dadansoddiad.

Prif Bwyntiau Ymarfer: Ymochri / Cydnawsedd

Diffiniad: Ymochri/Cydawsedd
Ymochri yw lle nad oes gan y plentyn deimladau negyddol cryf tuag at y rhiant arall ond mae'n well ganddo dreulio amser gydag un rhiant. Gall cydnawsedd rhwng rhiant a phlentyn ddatblygu cyn, yn ystod neu ar ôl gwahanu fel rhan o ddewisiadau sy'n codi'n naturiol neu o ddiffyg cyfranogiad, cyfranogiad bylchog neu gyfranogiad prin, diffyg profiad neu rianta gwael y rhiant arall (nad yw'n cyrraedd lefel cam-drin neu esgeuluso).

Ffactorau a dangosyddion:

- Gall gwrthwynebu rhiant, yn enwedig yn ystod y camau cynnar ar ôl gwahanu, ddeillio o un neu fwy o fathau o wrthodiad diniwed o riant ar ôl gwahanu fel anhoffter o reolau mwy llym mewn un tŷ, anhoffter o gynnwrf neu ddicter tuag at riant sy'n gadael (Clarkson a Clarkson, 2006).
- Gall cynghrair ddatblygu oherwydd dicter y plentyn tuag at ymddygiad y rhiant sydd wedi gadael a gall anfodlonrwydd i weld y rhiant hwnnw fod yn gwbl ddealladwy, o leiaf ar y cychwyn.
- Efallai y bydd plant hŷn a phobl ifanc yn eu harddegau yn gwrthod amser gyda rhiant fel rhan o ymddygiad arferol y glasoed ac arfer mwy o annibyniaeth a dewis personol.
- Efallai y bydd gan frodyr a chwiorydd wahanol resymau dros dderbyn neu wrthod amser gyda rhiant.

Y camau nesaf, cynllunio achos a chymorth:

- Os yw'r rhesymau am anfodlonrwydd y plentyn yn dynodi ymochri/cydnawsedd, esboniwch hyn i'r rhieni a'u hannog i ystyried effaith eu hymddygiad ar eu plentyn.
- Ystyriwch opsiynau lleol ac ar-lein ar gyfer cyfeirio'r rhieni a'r plant am gymorth a chyfarwyddyd ar rianta ar ôl gwahanu.
- Gall cwblhau Cynllun Rhianta a/neu atgyfeiriad WT4C fod o fudd hefyd.
- A yw'n briodol i'r CAWAC gael ei gwblhau? Os na, pam?

Prif Bwyntiau Ymarfer: Ymlyniad

Diffiniad: Ymlyniad
Ymatebion priodol i oedran neu ryw am wrthod amser gyda rhiant am resymau ymlyniad, gan gynnwys gorbryder gwahanu.

Ffactorau a dangosyddion:

* O safbwynt ymlyniad, gellir dehongli trallod a gelyniaeth plentyn neu berson ifanc at y rhiant nad yw'n byw gydag ef fel ymdrech i weithredu ymatebion darparu gofal gan y rhiant arall. Os nad yw'r plentyn yn derbyn cymeradwyaeth Rhiant A o Riant B, mae'n sbarduno '*ymddygiadau ceisio agosrwydd*' yn y plentyn tuag at Riant A. Gallai ymddygiadau ceisio agosrwydd gynnwys crio, cydio, gwrthod y rhiant arall yn herfeiddiol, ymosodedd, cilio neu ofalu'n agos am Riant A.
* Nid yw'r plentyn yn debygol o fod yn ymwybodol o'i ymddygiadau ymlyniad; nid yw plant bob amser yn '*gwybod*' eu bod yn defnyddio strategaethau o'r fath i ddiogelu eu perthynas gyda'u prif ddarparwr gofal.
* Ystyriwch y posibilrwydd y gallai ymddygiad a theimladau'r plentyn gael eu hystumio gan strategaeth ymlyniad y plentyn fel ei ffordd o gynnal teyrngarwch neu ennyn gofal gan y rhiant y mae'n byw gydag ef. Gweler yr adran isod ar ystyried dymuniadau a theimladau'r plentyn o ran ei iechyd a llesiant emosiynol a meddyliol.

Y camau nesaf, cynllunio achos a chymorth:

- Anogwch y ddau riant i fyfyrio ar sut y mae eu hymddygiad yn effeithio ar eu plentyn ac i feddwl, er enghraifft, am sut y gellid addasu trefniadau trosglwyddo neu amlder neu hyd yr amser gyda'r rhiant arall i gynorthwyo'r plentyn.
- Ystyriwch ddefnyddio'r Cynllun Rhianta a/neu WT4C yn yr un modd ag ymochri/cydnawsedd.

(Gyda diolch i Asen a Morris (2019, heb ei gyhoeddi eto) am gyfrannu at yr adran

Prif Bwyntiau Ymarfer: Dieithrio

Adolygiad Llenyddiaeth Cafcass Cymru a Gwaith Pellach
Ym mis Ebrill 2018, cyhoeddodd CASCADE – Canolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol Plant ym Mhrifysgol Caerdydd y '*Review of Research and Case Law on Parental Alienation'* a gomisiynwyd gan Cafcass Cymru. Nod yr adolygiad yw darparu sail dystiolaeth i hysbysu arfer yn Cafcass Cymru.

Dolen: Adolygiad Llenyddiaeth CASCADE: *Review of research and case law on parental alienation* (Ebrill 2018)

Mae awduron yr adolygiad yn nodi:

"*The notion of parental alienation was first recognised by Wallerstein and Kelly in 1976, but it was Gardner's assertion in 1987 that parental alienation was a syndrome, that is, a mental condition suffered by children who had been alienated by their mothers, which has led to debate over the last 30 years. However, despite a wealth of papers written by academics, legal and mental health professionals, there is a dearth of empirical evidence on the topic.*

Research in this area is dominated by only a few authors who appear polarised in their acceptance or rejection of the nature and prevalence of parental alienation. Such variability means that there is no commonly accepted definition of parental alienation and insufficient scientific substantiation regarding the identification, treatment and long-term effects (Saini, Johnston, Fidler a Bala, 2016)."

Mae'r adolygiad llenyddiaeth wedi bod o gymorth i hysbysu a chyd-nerthu ein dull o weithio gydag achosion sy'n cynnwys plant sy'n gwrthwynebu a gwrthod cyswllt.

Pwynt Ymarfer
Yprif oblygiadau i ymarfer fel y'u nodir yn yr adolygiad (tudalennau 42-43) ac fe'u crynhoir fel a ganlyn:

- Arfer da yw nodi'r rhesymau a dadansoddi'r rhesymau pam mae plentyn yn gwrthod neu'n gwrthwynebu cyswllt. Gallai'r dull Rhesymau a/neu CAWAC gynorthwyo mewn achosion priodol.
- Pan fo'n ymddangos bod y sail i wrthodiad yn afresymol byddwch yn gweithio ar y sail y bydd y llys yn dymuno ceisio cynnal neu ailgychwyn trefniadau cyswllt diogel ar gyfer y plentyn.
- Dylid tynnu sylw'r llys cyn gynted â phosibl at honiadau o ddieithrio neu ffeithiau y ceir dadl yn eu cylch am wrthodiad y plentyn i wneud cyswllt. Mae nodi problemau yn gynnar yn hollbwysig, gan y gall leihau'r perygl o oedi a phroblemau'n ymwreiddio – cefnogir y safbwynt hwn gan waith ymchwil a chanllawiau barnwrol. Mae angen ichi deimlo'n hyderus wrth wneud cais am wrandawiad canfod ffeithiau neu argymell penodi gwarcheidwad r16.4, os na ellir bwrw ymlaen â'r achos heb yr ymyriadau hyn.

Pwynt Ymarfer (parhad)

- Mae angen i chi fod yn ymwybodol bod angen i unrhyw gyngor/argymhellion a roddir i'r llys cyn unrhyw benderfyniad am y ffeithiau ystyried yr holl opsiynau sydd ar gael. Bydd angen i'ch dadansoddiad ystyried dull *naill ai/neu*', h.y. yr opsiynau os bydd canfyddiadau yn cael eu gwneud ac yna hefyd y rhai lle nad oes canfyddiadau yn cael eu gwneud, gan gynnwys yr opsiynau os canfyddiwr bod canfyddiadau yn rhannol wir hefyd.
- Pan fydd llys yn gwneud canfyddiad sy'n profi bod rhiant wedi ymddwyn mewn ffordd a fyddai'n dieithrio plentyn oddi wrth y rhiant arall sy'n gyfystyr â pherygl o niwed emosiynol, mae angen i gynghorwyr llys teulu fod yn ofalus wrth asesu neu argymell ymyriad penodol gan fod y sail dystiolaeth ar gyfer ymyriad effeithiol yn gyfyngedig iawn. Sylwer: nid yw Cafcass Cymru yn darparu cyngor nac argymhellion o ran ymyriadau pan ganfyddir mai ymddygiadau dieithrio yw'r nodwedd allweddol yn yr achos.

Mae'n bwysig nodi casgliad yr adolygiad llenyddiaeth sy'n esbonio wrth grynhoi bod sail dystiolaeth gyfyngedig o ran y pwnc o ddieithrio plentyn oddi wrth riant. Mae'n cydnabod yn eglur pa mor hanfodol yw gwahaniaethu rhwng amgylchiadau lle ceir cyfiawnhad i'r plentyn beidio â bod eisiau treulio amser gyda rhiant o sefyllfaoedd lle nad oes unrhyw reswm rhesymegol am y safbwynt hwnnw.

Pwynt Ymarfer

Pan fo tystiolaeth i awgrymu bod plentyn yn destun niwed sylweddol, neu fod perygl y bydd hyn yn digwydd, o ganlyniad i ddieithrio a all fod yn gyfystyr â cham-drin emosiynol, dylid gwneud atgyfeiriad i'r awdurdod lleol yn unol â gweithdrefnau diogelu. Dylid cynnwys yn eich ystyriaethau a ddylid paratoi a ffeilio adroddiad Asesu Risg 16a yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r llys ac yn amlinellu'r risgiau sydd i'w gweld, gan ganiatau i'r llys ystyried y materion a chyfeiriadau pellach ar frys.

Pwynt Ymarfer

Mae adroddiadau o ddyfarniadau llys yn pwysleisio dull rhagweithiol o sicrhau bod gan blant gyswllt â'r rhiant nad yw'n bywgydag ef. Pan fo honiadau neu broblemau o ddieithrio yn codi, ystyrir mai penderfynu ar y ffeithiau yn gynnar yw'r ffactor hanfodol i sicrhau'r canlyniad gorau i'r plentyn. Gallwch ddefnyddio'r canllaw hwn ar unrhyw gam o achos i benderfynu ai dieithrio yw'r brif nodwedd. Os gallwch benderfynu hynny yn gynnar, dylid tynnu sylw'r llys ato a nodi dull eglur o reoli'r achos.

Ym mis Medi 2018, cyflwynodd Community Care Inform (CCI) bodlediad ar ddieithrio gyda Julie Doughty (prif awdur yr adolygiad llenyddiaeth) a Sarah Parsons, Prif Weithiwr Cymdeithasol a Chyfarwyddwr Cynorthwyol yn Cafcass (Lloegr).

Dyma'r ddolen i'r podlediad: https://www.ccinform.co.uk/learning-tools/learn-on-the-go-podcast-parental-alienation/

Yn yr un modd â phob asesiad, dylai'r dadansoddiad achos ddechrau gyda'r hyn sy'n digwydd i bob plentyn a'i ddilyn, gan ystyried unrhyw berygl iddynt ac effaith ymddygiad rhieni a'u profiadau ehangach.

Prif bwyntiau ymarfer	
Ystyriwch: Yr effaith ar y plentyn a'r perygl iddo	• **Gorffennol** – Beth sydd wedi bod yn digwydd i'r plentyn hwn? • **Presennol** – Beth sy'n digwydd nawr? • **Dyfodol** – Beth allai ddigwydd? • **Risg** – Pa mor debygol yw o gael ei ailadrodd? • **Effaith ar y plentyn** – Pa mor ddifrifol fyddai'r sefyllfa?

Dylid nodi ac asesu effaith dieithrio ar y plentyn, gan gynnwys niwed emosiynol

- Mae Kelly a Johnston (2001) yn rhybuddio yn erbyn labelu plant fel rhai sydd wedi'u dieithrio 'yn rhy aml' heb archwilio'r holl resymau anniffiniol a chymhleth am eu hanfodlonrwydd neu wrthodiad.
- Mae'r nifer gynyddol o honiadau o ddieithrio yn y llysoedd teulu a'r perygl o or-ddynodi, yn cynnig rheswm arall am gyfarwyddyd cytbwys, â newid pwyslais, sy'n canolbwyntio ar y plentyn ac sy'n manteisio ar sail wybodaeth mor eang â phosibl. Gweler yr erthygl gan Linda Neilson, 2018.

  Dolen: *Parental Alienation Empirical Analysis: Child Best Interests or Parental Rights? Linda Neilson (2018) Fredericton: Muriel McQueen Fergusson Centre for Family Violence Research.*
- Mae'n bwysig nodi ymddygiadau nad ydynt yn ceisio eithrio un rhiant o fywyd y plentyn yn fwriadol , e.e. gallai gwrthod sesiwn o amser gyda'r rhiant arall fel ymateb i'r plentyn yn cael ei ddychwelyd adref yn hwyr olygu dros amser y bydd y plentyn yn cymryd ochr ac yn optio allan o weld un rhiant.

Yr Effaith ar Blant: Gall Amlygiad i Fathau Eithafol o Ymddygiadau Dieithro fod yn Niweidiol i'r Plentyn yn Emosiynol

Gall plant sydd wedi eu dieithrio fod mewn perygl o drallod emosiynol byrdymor ac anawsterau addasu hirdymor (Fidler, Bala a Saini, 2013). Gall plant ddatblygu systemau cred ystumiedig sy'n effeithio ar eu modelau gwaith mewnol o'u hunain ac eraill. Mae'r effaith bosibl ar y plentyn a'i ganlyniadau yn cynnwys:

- Colli perthynas bwysig gyda rhiant a / neu deulu ehangach.
- Ddim yn hoffi'r nodweddion a etifeddodd gan y rhiant a ddieithriwyd a'r gred fod yn rhaid eu bod yn 'ddrwg' os ydynt yn rhannu'r nodweddion hynny.
- Hunan-barch isel a chred nad yw'r rhiant a ddieithriwyd yn eu caru.
- Profiad o euogrwydd difrifol neu fradychiad ar ddiwedd y glasoed a phan yn oedolyn am wrthod rhiant ac eraill.
- Anawsterau iechyd meddwl, fel iselder, gorbryder ac anhwylder personoliaeth. Bydd yr achos yn canolbwyntio ar sut i helpu'r plentyn i adennill lefel o ddatblygiad normal a lleihau symptomau o salwch emosiynol, seicolegol neu feddyliol.
- Gall profiad o fodelu gwael o berthynas iach rhwng oedolion a datrys anghydfod arwain at effaith niweidiol ar berthnasoedd y plant eu hunain a'u dealltwriaeth o berthynas iach.

Mae arfer sy'n cael ei lywio gan drawma yn cydnabod y gall yr effaith o fyw trwy ddigwyddiadau a chysylltiadau trawmatig ac sy'n achosi straen arwain at amrywiaeth o anawsterau iechyd a llesiant meddwl, ac eithrio anhwylder straen wedi trawma, gan gynnwys:

- camddefnyddio alcohol/sylweddau,
- iselder,
- problemau gorbryder,
- anhwylderau ymddygiadol yn ystod plentyndod,
- seicosis a diagnosis personoliaeth.

Fodd bynnag, mae'n werth nodi nad yw pob plentyn sy'n cael ei amlygu i ddieithrio yn cael eu dieithrio. Mae angen newid y pwyslais asesu, gan gydnabod bod ymddygiadau dieithrio ar sbectrwm a bod yr effaith ar y plentyn yn amrywio yn ôl ei gadernid a'i natur agored i niwed unigol, perthnasoedd blaenorol a dylanwadau a ffactorau eraill.

Er yr adroddwyd am y canlyniadau hirdymor negyddol hyn gan oedolion a ddioddefodd ddieithrio yn ystod eu plentyndod, mae canfyddiadau empirig am ganlyniadau yn gymysg ac yn cael eu rhwystro gan y ffaith eu bod yn ôl-weithredol ac nad ydynt yn cymryd ffactorau esboniadol posibl eraill i ystyriaeth (Drozd, Saini ac Olessen, 2016).

Jane: "Rwy'n byw gyda fy nhad nawr, ond mae fy chwaer yn dal i fyw gyda'n mam. Fy mam sydd wedi gwneud pethau fel newid cyfenw fy chwaer ac atal unrhyw gyswllt rhwng fy chwaer a theulu estynedig fy nhad sydd heb ei gweld hi ers tua 2013. Byddai'n mynd â fy chwaer i wrandawiadau llys ac yn dweud wrthi beth i'w ddweud. Byddai fy chwaer yn taflu anrhegion Nadolig a phen-blwydd yn ôl at fy nhad gyda gwên ar ei hwyneb hi. Rwy'n gweld poen a loes fy nhad o beidio â gweld fy chwaer."

Ayesha: "Mae dieithrio plentyn oddi wrth riant yn teimlo fel eich bod wedi clywed cymaint o bethau gan un (rhiant) ei fod yn dechrau dod yn gredadwy. Er nad ydych yn gwybod y gwirionedd, rydych chi'n cael eich gwneud i deimlo fel mai dyna'r unig wirionedd. Rydych chi'n cael eich gwneud i deimlo'n gyson fel pe bai'r rhiant arall yn eich casáu, eisiau dim i'w wneud â chi. Beirniadu ei gilydd ac eraill yn cymryd rhan ac yn cytuno (â nhw). Pan rydych chi'n cerdded o gwmpas y strydoedd ar eich pen eich hun, rydych chi bob amser yn gweld y teulu perffaith yna: mam, tad a dau o blant ac rydych chi'n meddwl i'ch hun na fyddwch chi byth fel yna."

Patrymau o ymddygiadau dieithrio

Ni fydd yr holl ymddygiadau dieithrio gan riant y mae'r plentyn yn byw gydag ef o'r un graddau o ran dwysedd a bydd yr effaith yn amrywio. Er enghraifft, mae'r plentyn yn debygol o gael ei ddylanwadu gan ddwysedd emosiynol y sylwadau negyddol am y rhiant arall. Y ffordd orau o ystyried yr amrywiaeth o ymddygiadau, o ysbeidiol i gyson, yw ar sbectrwm, yn hytrach na fel categorïau ar wahân.

Mae'r diagram isod yn dangos nad yw ymddygiadau dieithrio i gyd o'r un dwysedd neu lefel o gysondeb ac yn cynnwys rhai o'r dangosyddion o ymddygiadau dieithrio ysbeidiol a chyson a'u heffaith amrywiol ar y plentyn.

Ymddygiad dieithrio ar sbectrwm – ymddygiad ac effiath

Ysbeidiol:	Cyson:
Geiriau neu weithredoedd ysbeidiol, bwriadol sydd â'r nod o danseilio perthynas y plentyn gyda'r rhiant arall o ganlyniad i loes neu ddicter neu natur agored i niwed emosiynol. Efallai y bydd yn pryderu'n wirioneddol am y plentyn y mae'r rhiant arall yn gofalu amdano, ond nid oes sail i'r pryderon hyn (addaswyd o Judge a Deutsch, 2017).	Gweithredu'n gyson mewn ffordd sy'n peri loes i'r rhiant arall a dinistrio ei berthynas gyda'r plentyn, gan bron byth ddangos empathi, hunanreolaeth neu wybodaeth, a datblygu natur obsesiynol (addaswyd o Judge a Deutsch, 2017).

Dangosyddion:	
• Rhywfaint o gydnabyddiaeth o werth perthynas y plentyn gyda'r rhiant arall (a'i deulu estynedig pan fo'n berthnasol). • Fodd bynnag, yn dangos ymddygiadau neu strategaethau dieithrio yn ysbeidiol. • Yn deall bod yr hyn y mae'n ei wneud yn anghywir ac yn yr ystyr hon ceir elfen o fwriadoldeb yn gysylltiedig â'i boen a dicter ynghylch diwedd y berthynas.	• Ymgyrch weithredol a chyson i danseilio a dinistrio perthynas y rhiant arall gyda'r plentyn. • Ddim yn gallu adnabod neu dderbyn efallai fod gan y plentyn ddymuniadau a theimladau sydd ar wahân i'w rai ef/hi. • Yn gwadu neu'n tanseilio gwerth y berthynas rhwng y plentyn a'r rhiant arall (a'i deulu estynedig weithiau). • Diffyg empathi a/neu'n amharod i faddau. • Wedi gwneud honiadau o gam-drin yn erbyn y rhiant arall y mae'r llys wedi canfod eu bod yn anwir. • Pan fo honiadau o gam-drin sydd heb eu profi, ni ellir ei argyhoeddi fel arall, hyd yn oed pan fo tystiolaeth i'r gwrthwyneb. • Dim cymhelliad i geisio cymorth i adfer perthynas y plentyn gyda'r rhiant (neu deulu estynedig a ffrindiau pan fo'r berthnasol). • Mae'r ymddygiadau dieithrio yn fwriadol, er y gall ei ymddygiadau fod yn uniongyrchol, yn anuniongyrchol neu o ganlyniad i ymddygiadau amddiffynnol yn seiliedig ar gredoau gwirioneddol. • Efallai fod anawsterau iechyd neu anhwylder personoliaeth yn cyfrannu at yr ymddygiadau dieithrio.

Bydd yr effaith ar y plentyn yn amrywio yn ôl ffactorau ym myd y plentyn. Mae pob plentyn yn unigryw. Mae ymddygiadau dieithrio ysbeidiol a chyson yn debygol o fod yn niweidiol, ond bydd maint a math y niwed yn wahanol ar gyfer pob plentyn, ac felly hefyd y camau gweithredu gorau i leihau neu oresgyn y niwed.


Byd y plentyn
Oedran
Brodyr a chwiorydd
Cadernid
Datblygiad
Dymuniadau a theimladau
Personoliaeth
Llesiant emosiynol
Agweddau agored i niwed

Dadansoddiad, Casgliad a Pharatoi Eich Adroddiad pan fydd Dieithrio yn Nodwedd Allweddol mewn Achos

Pwyntiau i'w Hystyried

- Efallai fod un rhiant yn dieithrio'r plentyn heb unrhyw gyfraniad at hyn gan y rhiant arall. Fodd bynnag, mae'n aml yn wir fod y ddau riant yn chwarae rhan yn hyn.
- Gall aelodau'r teulu, ffrindiau, gweithwyr proffesiynol a'r llys (yn enwedig pan fo achosion yn hirfaith), fod ynghlwm yn yr effaith niweidiol ar y plentyn. Ystyriwch pa gyfraniad mae pobl yn rhwydwaith y plentyn yn ei wneud. Gallai hwn fod yn gefnogaeth gadarnhaol i'r plentyn neu'n fwy negyddol.
- Mae ymddygiad cyson gan oedolyn, sy'n cael effaith gyfunol, yn debygol o gael mwy o effaith ar y plentyn na digwyddiadau unigol. Bydd faint o emosiwn sy'n gysylltiedig â'r sylwadau a'r ymddygiadau dieithrio hefyd yn dylanwadu ar yr effaith ar y plentyn.
- A yw trefniadau ar gyfer trosglwyddiadau yn ddiogel ac o gymorth i'r plentyn? A yw'r plentyn yn cael ei ddylanwadu mewn ffordd ddi-fudd gan bwy sy'n bresennol?
- Ystyriwch eto a oes arwyddion bod honiadau o ddieithrio yn cael eu gwneud fel math o gam-drin ar ôl gwahanu, fel rhan o ymddygiad cymhellol a rheoli tuag at y rhiant arall a / neu'r plentyn.
- Ystyriwch amrywiaeth y plentyn yn ei ystyr ehangaf, gan gynnwys o ran ei hunaniaeth.

Y camau nesaf a chymorth

- Mae ymyriadau effeithiol yn dal i beri problemau oherwydd eu cost a diffyg consensws ynghylch effeithiolrwydd dewisiadau amgen.
- Ystyriwch a oes angen argymhellion ar gyfer gwrandawiad canfod ffeithiau cynnar gan y llys neu benodiad cynnar o Warcheidwad Plant o dan reol 16.4, gyda chylch gwaith eglur â phwyslais penodol.
- Ystyriwch a fydd angen asesiad arbenigol gan y llys ynghylch unrhyw anawsterau seicolegol neu iechyd meddwl yn y teulu.
- Mae adolygiad diweddar o ymyriadau yn rhyngwladol yn awgrymu nad oes un protocol unigol ar gyfer asesu a thrin achosion lle gallai dieithrio fod yn ffactor (Templer, Matthewson, Haines, a Cox, 2017). Ni nodwyd unrhyw ymyriadau o'r DU yn yr adolygiad hwn nac yn adolygiad Doughty, Maxwell a Slater (2018), a gynhaliwyd ar ran Cafcass Cymru.
- Cyfeiriwch at y gyfres o ddogfennau canllaw Cyngor Da a luniwyd gan Fwrdd Pobl Ifanc Cyfiawnder Teuluol ar gyfer gweithio gyda phlant a phobl ifanc.
- Dylid adrodd safbwyntiau'r plentyn yn uniongyrchol, gan ddefnyddio ei eiriau ei hun pan fo'n bosibl, i ddod â'r rhain yn fyw i'r rhieni a'r llys. Er enghraifft, ymgorfforwch ei eiriau mewn adroddiad neu ei gynorthwyo i ysgrifennu llythyr at y barnwr.
- Os yw'r plentyn wedi cael ei amlygu i'r ymddygiad dieithrio, efallai y bydd tensiwn yn amlwg rhwng ei ddymuniadau a'i deimladau a'i fudd pennaf.
- Os nad yw eich argymhellion yn cyd-fynd â dymuniadau a theimladau'r plentyn, yr arfer gorau yw ei hysbysu am hyn mewn ffordd briodol.
- Er mwyn cynnal asesiad trylwyr o sut y mae'r plentyn yn ymddwyn gyda phob rhiant, mae'n hanfodol bod arsylwadau yn cael eu gwneud o'r plentyn gyda phob rhiant ar ei ben ei hun. Mae'n allweddol i'ch asesiad bod y plentyn ar gael ar gyfer yr arsylwadau hyn ac yn gweld y rhiant sy'n ceisio treulio amser gyda'r plentyn.

Ystyriwch eich Dadansoddiad, gan gynnwys Ffynonellau Posibl o Ragfarn

Wrth ystyried eich casgliadau neu yn ystod goruchwyliaeth fyfyriol, cyfeiriwch at y pwyntiau a'r cwestiynau hyn:

- Ystyriwch eich dadansoddiad o'r rheswm dros anfodlonrwydd neu wrthodiad y plentyn i dreulio amser gyda rhiant.
- Cyfeiriwch at y dulliau a ddefnyddiwyd a chrynhowch yr hyn y mae wedi ei ddweud wrthych.
- Beth yw'r risg benodol i'r plentyn? A yw'r anfodlonrwydd yn ymateb cyfiawn neu ddealladwy gan y plentyn y dylid ei barchu? Ai'r risg yw y gallai ei berthynas gyda rhiant gael ei niweidio y tu hwnt i'w adfer, am ddim rheswm da ac eithrio ymddygiad dieithrio rhiant arall? Neu ai'r ffaith yw bod dieithrio yn ffactor ond wedi ei wreiddio mor ddwfn y byddai ailgyflwyno amser gyda'r rhiant arall (neu 'orfodi') plentyn yn erbyn y dymuniadau a fynegwyd ganddo yn niweidiol iawn?
- Beth mae hyn yn ei ddweud wrthych am y trefniadau neu'r cymorth gorau i'r plentyn yn y dyfodol?
- Ystyriwch bob math posibl o ragfarn, gan gynnwys rhagfarn ar sail rhyw ac effaith arferion personol a diwylliannol ar eich ystyriaethau.
- A ydych wedi cadw eich pwyslais ar yr effaith a'r risgiau i'r plentyn ac wedi ceisio helpu'r rhieni i wneud yr un fath?
- Ystyriwch sensitifrwydd diwylliannol eich asesiad. A ydych wedi cymryd cyd-destun diwylliannol y plentyn a'i anghenion hunaniaeth i ystyriaeth?
- Wrth fyfyrio ar eich dadansoddiad, cyfeiriwch yn ôl at eich achos ac ailystyriwch y cwestiynau a ofynnwyd gennych ar ddechrau'r achos am yr hyn sy'n digwydd i'r plentyn hwn; gweler tudalen 11. Mae hyn yn helpu i sicrhau eich bod wedi cau pen y mwdwl yn eich asesiad ac yn tynnu sylw at unrhyw risgiau ac effaith ar y plentyn wrth ichi wneud eich argymhellion.
- Byddwch yn ystyriol o'n hymrwymiad i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig a'r effaith bosibl ar blant o beidio â chymeradwyo eu dymuniadau a'u teimladau.

Gwnewch Argymhellion er Budd Pennaf y Plentyn, gan ganolbwyntio ar Newid Cadarnhaol i'r Plentyn

- Ystyriwch mor gynnar â phosibl a oes angen penodi Gwarcheidwad Plant a chyfreithiwr plant o dan reol 16.4 i ddarparu cynrychiolaeth ar wahân i'r plentyn.
- Cadw'r pwyslais ar yr effaith ar y plentyn bob amser a gwneud cysylltiadau eglur rhwng y dadansoddiad a'r argymhellion a all helpu i osgoi'r achos rhag canolbwyntio ar oedolion.
- Yn y cyd-destun hwn, wrth adrodd i'r llys mae'n ddefnyddiol darparu disgrifiad cryno o ymddygiadau'r plentyn a'r rhieni sy'n hysbysu eich dadansoddiad a bod yn eglur ynghylch eich arsylwadau a pha gasgliadau yr ydych yn dod iddynt am y rhain.
- Pan fyddwch yn credu bod y plentyn yn dioddef neu'n debygol o ddioddef niwed emosiynol sylweddol, ystyriwch yr angen i atgyfeirio'r achos i'r awdurdod lleol, neu a ddylid argymell i'r llys bod yr awdurdod lleol yn llunio adroddiad adran 37. Os ydych yn gwneud atgyfeiriad diogelu, ystyriwch sut i sicrhau bod yr atgyfeiriad yn cael effaith. Ystyriwch siarad â'r rheolwr ALl perthnasol ymlaen llaw.
- Os oes newid i'r lle y mae'r plentyn yn byw ynddo yn cael ei ystyried, a oes angen cynnwys arbenigwr? Beth fydd hyn yn ei gyfrannu yn ychwanegol at eich dadansoddiad gwaith cymdeithasol eich hun?
- Ar ôl ichi ysgrifennu eich adroddiad a chyn ei ffeilio, ewch yn ôl i ddechrau eich asesiad. A ymdriniwyd â'r holl risgiau? A fethwyd unrhyw beth, neu a fethwyd â rhoi sylw i fater yn ystod oes yr achos? O'r materion sy'n weddill, ystyriwch eich cyngor i'r llys ar sut y dylid mynd i'r afael â'r rhain.

Defnyddio dull ymarfer cydbwyso i gynorthwyo gydag argymhellion ar gyfer y plentyn:

- Mae angen i'r asesiad ystyried y cryfderau a'r risgiau sy'n deillio o'r ddau riant. Rydych yn ceisio sicrhau bod gan blentyn berthynas fuddiol gyda'r ddau riant pan fo'n ddiogel, fel nad ydynt yn mynd trwy eu blynyddoedd ffurfiannol heb fanteision perthynas gariadus gyda phob oedolyn arwyddocaol.
- Mae mabwysiadu dull mantolen o ddadansoddi lles, o ran cynnal adolygiad systematig o fanteision ac anfanteision pob opsiwn (gweler 'Re B-S (Children) [2013] EWCA Civ 1146') yn ddefnyddiol i werthuso effaith pob opsiwn a allai fod yn realistig ar y plentyn.
- Dylai eich argymhellion geisio dod o hyd i ateb ar gyfer y plentyn. Bydd hyn yn golygu pwyso a mesur yr opsiynau realistig a hefyd ragweld y tebygolrwydd y bydd pob rhiant yn gallu gweithio gyda'r hyn yr ydych wedi ei argymell a chyda'i gilydd (os yw'n briodol).

  Gallai opsiynau realistig gynnwys:
  a) newid yn y lle y mae'r plentyn yn byw
  b) trefniant byw a rennir
  c) ailgyflwyno amser gyda'r rhiant arall (amrywio'r amlder a'r hyd)
  ch) dim newid i'r trefniadau.
- Dylid cynnal yr ymarfer cydbwyso ar wahân ar gyfer pob plentyn.
- Mae'r rhestr isod yn cynnwys rhai o'r ffactorau allweddol i'w hystyried ym mhob ymarfer cydbwyso:
  - Lefel bwriadoldeb, cysondeb a dwysedd yr ymddygiad dieithrio gan oedolyn a gallu'r rhiant i newid hyn.
  - A oedd gan y plentyn berthynas gadarnhaol gyda'r rhiant arall o'r blaen?

- A yw'r rhiant hwnnw yn deall anghenion y plentyn?
- Oedran y plentyn a dadansoddiad o'r hyn y mae hynny'n ei olygu
- A yw'r plentyn yn gwneud cynnydd da yn addysgol, yn gymdeithasol ac yn emosiynol yn y trefniadau presennol? Os felly beth yw'r niwed i'r plentyn o golli'r berthynas gyda'r rhiant?
- Pa mor debygol y mae'r plentyn o allu ymdopi â'r newid sy'n cael ei ystyried?
- Os caiff newid yn y lle y mae'r plentyn yn byw ei orchymyn gan y llys, a fydd yn bosibl cadw elfennau cadarnhaol o berthynas y plentyn gyda'r prif ofalwr blaenorol?
- A all y rhiant nad yw'r plentyn yn byw gydag ef ar hyn o bryd ddarparu gofal digolledu i'r plentyn i oresgyn effaith dieithrio?
- A fyddai cyfnod o ddim *'amser gyda'* y rhiant a ddangosodd ymddygiadau dieithrio yn annog gwelliannau cadarnhaol i'r berthynas rhwng y plentyn yn y trefniant newydd?
- Pa effaith fydd newid yn ei chael ar anghenion hunaniaeth y plentyn ac o ran rhwydweithiau teuluol ehangach y plentyn ac unrhyw wahaniaethau diwylliannol rhwng y ddwy aelwyd?
- Os yw'r newid yn cynnwys gwahanu neu aduno brodyr a chwiorydd, pa effaith fydd hyn yn ei chael ar bob plentyn?

Newid i'r trefniadau o ran lle y mae'r plentyn yn byw:

- A yw'r rhiant y mae'r plentyn yn byw gydag ef yn cefnogi cyswllt gyda'r rhiant arall, a'r agwedd tuag at y rhiant arall – effaith ar y plentyn?
- A yw lefel trallod y plentyn yn gwella'n gyflym o dreulio amser gyda'r rhiant nad yw'r plentyn yn byw gydag ef fel rheol?
- Perthynas flaenorol gyda'r rhiant nad yw'r plentyn yn byw gydag ef fel rheol?
- Cyfnod o amser ers i'r plentyn dreulio amser gyda'r rhiant nad yw'n byw gydag ef? Pryd ddaeth cyswllt i ben?
- Amgylchiadau'r rhiant nad yw'r plentyn yn byw gydag ef? A oes ganddo lety addas a mynediad at ofal plant?
- Effaith ar addysg a pherthnasoedd eraill a chyfeillgarwch?

Lleoliad parhaus gyda'r rhiant preswyl:

- A yw'r rhiant y mae'r plentyn yn byw gydag ef yn ymgysylltu ac yn dangos unrhyw wybodaeth bellach neu allu i newid?
- A oes rhyw lefel o amser yn cael ei threulio gyda'r rhiant arall ac aelodau o'r teulu estynedig?
- Perthynas y plentyn gyda'r ddau riant?
- Ffactorau eraill sy'n dylanwadu ar y plentyn – Ystyriwch y 4 A (tudalen 4)
- A yw'r plentyn wedi bod yn dyst i wrthdaro ar ôl i'w rieni wahanu? A allai hyn esbonio ei wrthodiad i dreulio amser gyda'i riant?
- A yw'r plentyn yn dangos arwyddion eraill o drallod/niwed emosiynol? Dylid rhyngwynebu ag asiantaethau eraill i gasglu gwybodaeth.

Dim cyswllt uniongyrchol gyda'r rhiant nad yw'r plentyn yn byw gydag ef:

- Beth fydd yr effaith ar y plentyn yn y byrdymor neu'r hirdymor? Ystyriwch yn y byrdymor pa lefel o drallod y mae gorfodi cyswllt yn ei chael ar y plentyn a'r effaith emosiynol o wneud hynny.
- A all perthynas gydag aelodau eraill o deulu'r rhiant nad yw'r plentyn yn byw gydag ef gael ei chyflwyno?
- A yw'n debygol y bydd newid yn y dyfodol? Ystyriwch a fydd angen i'r trefniadau hyn newid yn y dyfodol? Sut bydd y 'drws' i'r berthynas yn cael ei adael ar agor i'r plentyn nawr ac yn y dyfodol?

Awdurdod Lleol – lleoliad mewn gofal maeth:

- Cydbwyso effaith emosiynol symud at ddieithryn yn erbyn aros gyda rhiant y mae'r plentyn yn byw gydag ef fel rheol.
- Beth yw'r cynlluniau hirdymor tebygol a llwyddiant tebygol unrhyw gynlluniau o'r fath?
- A oes unrhyw aelodau teulu a all gynorthwyo?
- A yw symudiad o'r fath yn gymesur?

Defnydd o ganolfannau cyswllt:

- Ystyried at ba ddiben: ar gyfer asesiad pellach? Ar gyfer ailgyflwyniad â chymorth? A yw hyn wedi helpu yn y gorffennol? Sut fyddai hynny'n edrych? Gyda chymorth, goruchwyliaeth.
- Parodrwydd pob parti i gymryd rhan.

Gorchymyn Cymorth Teuluol:

Dolen: Canllawiau Gorchymyn Cymorth Teuluol

- A yw'r partïon yn barod i gymryd rhan?
- Sut fydd hyn yn edrych?
- Beth yw'r canlyniadau tebygol?
- Beth yw'r tebygolrwydd y bydd hyn yn arwain at newid?

Penderfyniadau anodd o ran '*goresgyn*' gwrthodiad anghyfiawn plentyn o riant

- Efallai y bydd plentyn sydd wedi dioddef ymddygiad dieithrio yn ymddangos yn ddig iawn a/neu yn ofidus am y syniad o dreulio amser gyda'r rhiant arall. Efallai y bydd lefel yr emosiwn yn gostwng yn gyflym iawn pan fo gyda'r rhiant arall, neu gallai barhau. Mae cwestiynau yn codi wedyn ynghylch i ba raddau y dylid gorfodi'r plentyn i dreulio amser gyda'r rhiant a wrthodwyd, hyd yn oed pan ystyrir bod gwneud hynny o'r budd pennaf iddo yn yr hirdymor.
- Os canfyddir bod y plentyn yn dioddef niwed, sy'n cyfiawnhau cyfranogiad yr awdurdod lleol, yna bydd angen cymhwyso lefel debyg o graffu a dadansoddi â'r hyn a gymhwyswyd ynghylch cymryd plentyn oddi wrth riant mewn achos gofal, hyd yn oed os yw'r achos yn dal i fod yn destun cyfraith breifat. Os mai'r argymhelliad yw trosglwyddiad diogel a buddiol i ofalwr newydd, bydd angen i'r llys ei ystyried a'i adolygu yn ofalus.
- Efallai y bydd y llys yn ystyried gorchymyn yr awdurdod lleol i adrodd o dan a37.
- Efallai y bydd angen ystyried atgyfeiriad gan Cafcass Cymru i'r awdurdod lleol.
- Pan fydd amheuaeth, honiad neu gred bod plentyn mewn perygl o niwed, mae gan Cafcass Cymru ddyletswydd o dan a16A i hysbysu'r llys trwy adroddiad asesu risg.

- Pan fydd plentyn wedi cael ei addysgu gan riant y byddai cyswllt gyda'i riant arall yn beryglus neu'n annymunol, gall fod yn anodd iawn newid hyn.
- Mae rhiant nad yw'n rhoi sylw i hyn o bosibl yn gyfystyr â chyd-fynd â sefyllfa o gam-drin emosiynol a safbwynt ystumiedig o'r byd. Mae'n atgyfnerthu ymddygiad osgoi a gallai rymuso'r plentyn mewn ffordd negyddol yn anghymesur. O dan unrhyw amgylchiadau eraill, byddai disgwyl i riant helpu'r plentyn i oresgyn rhywbeth yr oedd yn ei osgoi, er enghraifft os oedd plentyn yn anfodlon mynd i'r ysgol heb gyfiawnhad dros hynny, byddai disgwyl i'r rhiant neu'r gofalwr wneud pob ymdrech i ddeall y gwrthwynebiad a helpu'r plentyn i'w oresgyn.
- Er gwaethaf y risgiau hyn i lesiant emosiynol y plentyn, gall y risg o'i orfodi i dreulio amser gyda'r rhiant arall fod yn uwch. Mae angen cynnal yr asesiad hwn o risgiau sy'n cystadlu ar sail achosion unigol, yn seiliedig ar anghenion unigol pob plentyn a sefyllfa'r teulu.
- Yn ddealladwy iawn, gall deimlo'n gwbl anghyfiawn i riant a wrthodir. Fodd bynnag, sut bynnag y cawsant eu ffurfio, gall dymuniadau a theimladau plentyn fod wedi eu gwreiddio cymaint yn erbyn treulio amser gyda'r rhiant arall (ac nid yw newid y lle y mae'n byw ynddo yn ymarferol chwaith), nad yw amser gyda'r rhiant hwnnw yn bosibl.
- Bydd angen i'r asesiad a phroses y llys gydbwyso'r risgiau ym mhob senario i bob plentyn unigol.

Enghreifftiau Achos yn Cynnwys Dieithrio

Stori Mali

Roedd Mali yn 7 oed, ac yn cael ei hatal rhag cael perthynas ystyrlon, gariadus a chefnogol gyda'i thad. Roedd mam Mali yn benderfynol na ddylai ei thad chwarae unrhyw ran yn ei bywyd ac roedd mor gadarn yn y gred hon iddi ffoi gyda'r plentyn pan ddaeth y llys, Cafcass Cymru a gwasanaethau cymdeithasol i gyd i'r casgliad y dylai Mali fyw gyda'i thad. Roedd ar goll am sawl diwrnod, gyda phryderon cynyddol am les Mali yn ogystal â'i mam.

Nid oedd Mali eisiau gweld ei thad na byw gydag ef, roedd yn cyd-fynd yn gryf â'i mam, ond nid oedd unrhyw reswm cyfiawn am ei gwrthodiad i weld ei thad – ac eithrio'r ffaith ei bod yn adlewyrchu safbwyntiau ei mam. Cynhaliwyd asesiad seciolegol o'r fam, a nodwyd bod angen therapi i'w helpu i newid ei safbwyntiau am y tad. Nid oedd yn fodlon cymryd rhan yn y therapi a gynigiwyd. Oherwydd difrifoldeb y niwed emosiynol a oedd yn cael ei achosi i Mali gan ymddygiad ei mam, gwnaeth y llys orchymyn gofal interim, a oedd yn golygu bod yr awdurdod lleol yn rhannu cyfrifoldeb rhiant gyda'r ddau riant. Galluogodd hyn i Mali gael ei chymryd o ofal ei mam a chael ei lleoli gyda'i thad. Daethpwyd o hyd i Mali gan yr heddlu yng ngofal y fam ar ôl iddynt ffoi yn dilyn cadarnhâd y llys y byddai'n gwneud y gorchymyn i Mali fyw gyda'i thad. I gychwyn, roedd Mali mewn trallod ac yn ofidus, ond ar ôl cyfnod o fonitro agos gan y gweithiwr cymdeithasol ac ymweliadau gan y gwarcheidwad plant, dangosodd arwyddion a setlo i lawr a thawelu. Cynigiwyd cyswllt â goruchwyliaeth i'r fam oherwydd y risg o ffoi, ond ni fanteisiodd ar hyn ac nid oedd y fam wedi gofyn i weld Mali ar adeg cloi'r achos.

Dyfyniad o ddyfarniad: H (Children) [2014] EWCA Civ 733 Mrs Ustus Parker

